


# Creu mannau chwarae hygyrch

**Pecyn cymorth**

Tachwedd 2017

© Chwarae Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ar wahân i'r offer i gynorthwyo, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

ISBN: 978-0-9932410-7-9

Cyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Mae Alison John and Associates (AJA) yn grŵp o hyfforddwyr ac ymgynghorwyr anabl a heb anabledd sy'n trosglwyddo hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd a herio rhagfarn ar sail anabledd i ddarparwyr gwasanaethau. Maent yn arbenigo mewn trosglwyddo gwasanaeth hyfforddi ac ymgynghori ar gynhwysiant, cydraddoldeb a chwarae a'r blynyddoedd cynnar sy'n gyfranogol, diddorol ac sy'n anelu i ysbrydoli newid.

Mae Chwarae Cymru yn elusen cofrestredig, rhif 1068926
Cwmni cyfyngedig drwy warant, rhif 3507258
Cofrestrwyd yng Nghymru

**www.chwaraecymru.org.uk** **www.alisonjohn.com**

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 4
Ar gyfer pwy mae'r pecyn hwn? 5
Pam wnaethon ni ei ddatblygu? 5
Beth mae wedi ei ddylunio i'w wneud 5

**Materion i'w hystyried**

Chwarae a gwerth chwarae 7

Pwysigrwydd mannau chwarae 8

Nodyn ar offer penodol 9

Diffiniadau defnyddiol 10

Taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau 12

Adborth gan blant a rhieni 14

**Offer i gynorthwyo**

1: Camau y gallwn eu cymryd i ddatblygu mannau chwarae cynhwysol 16

2: Archwiliad man chwarae 18

3: Asesiad mynediad i fannau chwarae 21

4: Hunan-asesu: dylunio a darparu man chwarae hygyrch 27

5: Rhagweld cydraddoldeb a chynllunio dyluniad rhesymol 30

6: Ystyriaethau dylunio safle 33

7: Cynllunio ar gyfer dylunio rhesymol wrth adfywio mannau chwarae 35

8: Cynnal dadansoddiad opsiynau 36

9: Gwerth chwarae: gwybodaeth i rieni 38

10: Hyrwyddo'r man chwarae 39

11: Polisi rheoli risg 40

12: Ystyriaethau allweddol ar gyfer ardaloedd chwarae newydd 42

**Cyfeiriadau** 43

**Atodiad 1: Polisïau a deddfwriaethau sy'n sylfaen i'r pecyn cymorth** 44

**Gwefannau ac adnoddau defnyddiol** 47

**Diolchiadau** 47

# Gweithio i chwalu rhwystrau i fannau chwarae er mwyn i chwarae ddigwydd

## Cyflwyniad

Mae chwarae'n elfen ganolog o iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant ac, o ganlyniad, i'w teuluoedd a chymunedau'n gyffredinol. Mae gan bob plentyn ysfa gynhenid i chwarae ac mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod chwarae'n effeithio ar ddatblygiad ffisegol a chemegol yr ymennydd – gan ddylanwadu ar ddawn plentyn i 'gyfaddasu i, goroesi, ffynnu a ffurfio eu hamgylcheddau cymdeithasol a ffisegol'[1].

Mae'r hawl i chwarae wedi ei ddiogelu yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae chwarae wedi ei ddisgrifio fel dimensiwn allweddol o bleser plentyndod[2] a thrwy chwarae, bydd plant yn datblygu gwytnwch a hyblygrwydd, gan gyfrannu at les corfforol ac emosiynol.

I blant, chwarae yw un o elfennau pwysicaf eu bywydau.

*'I ddweud y gwir, y cwbwl dwi eisiau ydi gwneud ffrindiau a chymryd rhan yn beth bynnag sy'n digwydd ble rydw i'n byw.'*[3]

Mae chwarae gyda neu ochr-yn-ochr â phlant eraill yn cynnig amrywiaeth o fuddiannau i bob plentyn, fel:

- Ymdeimlad o berthyn
- Hwyl a mwynhad
- Datblygu sgiliau.

I blant anabl, mae'r buddiannau hyn yn arbennig o bwysig gan eu bod yn cefnogi datblygiad sgiliau eraill. Pan fo lant anabl yn gallu cyfranogi gyda phlant eraill, bydd pob plentyn yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r amrediad llawn o alluoedd. Bydd y profiadau cynnar yma'n ffurfio ein goddefgarwch a'n dealltwriaeth o wahaniaethau. Mae amgylchedd mwy cynhwysol yn ei gwneud yn haws i blant gynorthwyo ei gilydd, sy'n lleihau'r angen i oedolion fod yn or-bresennol. Bydd cynorthwyo plant i gael mynediad i ac i ddefnyddio mannau chwarae yn y blynyddoedd cynnar yn cefnogi eu hannibyniaeth a'u hyder wrth ddefnyddio mannau cyhoeddus yn nes ymlaen.

Mae gan bob plentyn hawl foesol a chyfreithiol i chwarae yn ei gymuned ei hun waeth beth fo'i ddiwylliant, nam, rhyw, iaith, cefndir, ymddygiad neu angen. Mae plant a phobl ifanc angen, ac mae ganddynt hawl i dderbyn mannau o safon ac amser i chwarae fel rhan o'u bywydau bob dydd yn eu cymunedau eu hunain.

Mae rhai plant anabl yn wynebu unigrwydd, a chael eu hynysu a'u heithrio. Gallai hyn fod o ganlyniad i amgylchedd sydd wedi ei ddylunio'n wael, agweddau sy'n pwysleisio ein gwahaniaethau neu effeithiau cyflyrau a namau sy'n cyfyngu ar hunan-annibyniaeth a chyfranogaeth.

*'Mae plant a phobl ifanc anabl yn wynebu rhwystrau oherwydd diffyg darpariaeth, diffyg cefnogaeth, hygyrchedd gwael i adeiladau ac agweddau negyddol sydd, er gwaethaf deddfwriaethau a pholisïau, yn eu hatal rhag cyfranogi yn yr un modd â phlant a phobl ifanc sydd ddim yn anabl.'*[4]

Bydd chwalu rhwystrau i fannau chwarae o ansawdd yn:

- Sicrhau eu bod yn hygyrch i'r nifer mwyaf posibl o blant a'u gofalwyr
- Cefnogi plant o bob oed a gallu i chwarae gyda'i gilydd
- Cyfoethogi'r ymdeimlad lleol o gymuned a chefnogi cyfranogiad a lles cymunedol
- Galluogi plant i elwa o holl fuddiannau cadarnhaol chwarae – fydd yn cyfrannu at eu hymdeimlad cyffredinol o iechyd a hapusrwydd.

Mae'r sail bresennol ar gyfer chwalu rhwystrau'n canolbwyntio'n bennaf ar yr amgylchedd ffisegol. Mae'r pecyn cymorth yma'n anelu i ganolbwyntio ar yr amgylcheddau synhwyrol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â chwarae. Bydd ystyried ffactorau ffisegol, cymdeithasol a synhwyrol yn cynyddu ansawdd mannau chwarae ar gyfer pob plentyn, gan gynnig amgylchedd chwarae cyfoethog i bawb.

Mae plant anabl yn blant sy'n profi gwahaniaethu ar sail eu namau. Mae'r pecyn cymorth yma'n anelu i gefnogi rhanddeiliaid i gymryd camau rhesymol a rhagflaenol i sicrhau y gall plant â namau wneud defnydd da o feysydd a mannau chwarae.

Pan fyddwn yn dylunio mannau sy'n cael pethau'n iawn ar gyfer plant anabl, mae'n dilyn wedyn y bydd yn ateb anghenion chwarae'r mwyafrif o blant a'r gymuned ehangach.

## Ar gyfer pwy mae'r pecyn hwn?

Bwriedir i'r pecyn cymorth yma gynorthwyo awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned, gwleidyddion ar bob lefel, cynllunwyr mannau agored, cymdeithasau tai a rheolwyr parciau a meysydd chwarae i gyflawni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran datblygu ac uwchraddio mannau chwarae hygyrch.

Bwriedir iddo hefyd ddarparu arweiniad i awdurdodau lleol a'u partneriaid wrth gyflawni dyletswyddau digonolrwydd chwarae statudol o ran sicrhau darpariaeth chwarae. Bydd yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer gwneuthurwyr offer meysydd chwarae, rhieni ac aelodau o'r gymuned, er mwyn iddynt ddeall y cyfleoedd a'r heriau.

## Pam wnaethon ni ei ddatblygu?

Fe'i ddatblygwyd gan Chwarae Cymru ac Allison John and Associates yn dilyn nifer cynyddol o ymholiadau oddi wrth rieni a darparwyr ynghylch darparu cyfleoedd chwarae hygyrch ar gyfer plant anabl yn eu cymunedau. Cyflwynodd grŵp ffocws bychan o rieni, rheolwyr ardaloedd chwarae awdurdodau lleol, swyddogion datblygu chwarae a chynrychiolwyr o fudiadau plant sylwadau ar gynnwys y pecyn cymorth.

## Beth mae wedi ei ddylunio i'w wneud?

Mae'r pecyn cymorth yma wedi ei ddylunio i ddarparu gwybodaeth eglur a chryno fydd yn helpu i greu mannau chwarae sy'n galluogi pob plentyn i chwarae ynddynt, ynghyd â'u ffrindiau a'u teuluoedd.

Mae'n cynnwys gwybodaeth y bwriedir iddi eich helpu i ddeall a mynd i'r afael â materion sy'n destun pryder ac mae'n cynnwys templedi ac offer cam-wrth-gam, ymarferol ar gyfer cyflawni gwaith sy'n gysylltiedig â chwalu rhwystrau sy'n wynebu plant anabl a'u teuluoedd wrth geisio cael mynediad i fannau chwarae.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn canolbwyntio ar fannau sydd wedi eu dylunio'n benodol ar gyfer chwarae, fel meysydd chwarae ac ardaloedd chwarae. Fodd bynnag, gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer amryw o leoliadau ledled ein cymunedau a'n mannau cyhoeddus, os ydynt wedi eu clustnodi'n benodol ar gyfer chwarae plant ai peidio.

# Materion i'w hystyried


| | |
|---|---|
| Chwarae a gwerth chwarae | 7 |
| Pwysigrwydd mannau chwarae | 8 |
| Nodyn ar offer penodol | 9 |
| Diffiniadau defnyddiol | 10 |
| Taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau | 12 |
| Adborth gan blant a rhieni | 14 |




# Chwarae a gwerth chwarae



Mae chwarae plant yn unrhyw ymddygiad, gweithgaredd neu broses gaiff ei sbarduno, ei rheoli a'i strwythuro gan y plant eu hunain – bydd yn digwydd pryd bynnag a ble bynnag y bo cyfle'n codi. Gall pobl sy'n rhoi gofal gyfrannu at greu amgylcheddau ble y bydd chwarae'n digwydd, ond mae chwarae ei hun yn anorfodol, caiff ei yrru gan ysgogiad greddfol a'i wneud er ei fwyn ei hun, yn hytrach nag fel modd o wneud rhywbeth arall. Nodweddion allweddol chwarae yw hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd a pheidio â bod yn gynhyrchiol.

## Gwerth chwarae

Mae'r term 'gwerth chwarae' yn disgrifio amrywiaeth ac ansawdd y profiadau a'r cyfleoedd chwarae a gynigir gan amgylchedd chwarae. Fe'i defnyddir hefyd i ddisgrifio'r gwerth y bydd gofod, neu ddarn o offer, yn ei gynnig i blant i'w helpu i ymestyn eu chwarae. Mae gofod sy'n gyfoeth o werth chwarae'n creu cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o brofiadau chwarae corfforol, cymdeithasol a synhwyraidd.

Mae'n cynnig cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ryngweithio'n rhydd gyda neu brofi'r canlynol:

- **Plant a phobl ifanc eraill –** gyda'r dewis i chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, i drafod, cydweithio, anghytuno, a datrys anghydfod
- **Y byd naturiol –** y tywydd, y tymhorau, llwyni, coed, planhigion, pryfetach, anifeiliaid a mwd
- **Rhannau rhydd –** deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin, eu symud a'u haddasu, adeiladu a chwalu
- **Yr elfennau naturiol –** daear, awyr, tân a dŵr
- **Her a mentro –** ar lefel corfforol ac emosiynol
- **Chwarae gyda hunaniaeth –** chwarae rôl a gwisgo i fyny
- **Symud –** rhedeg, neidio, dringo, balansio a rholio
- **Sgarmes –** chwarae ymladd
- **Y synhwyrau –** sŵn, blas, ansawdd, arogl a golwg.

# Pwysigrwydd mannau chwarae

Bydd mannau da i chwarae mewn cymuned yn dangos i'r bobl yn y gymuned honno bod chwarae'n bwysig. Maent yn creu canolbwynt ar gyfer cymuned, gan gynnig cyfleoedd i oedolion a phobl ifanc gwrdd a chymdeithasu â'i gilydd. Mae plant a'u teuluoedd yn gwerthfawrogi mannau chwarae o ansawdd, y perthnasau y maent yn eu creu trwyddynt a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i gymunedau.

Gall offer chwarae gynnig profiadau a rennir a gall plant o wahanol allu chwarae gyda'i gilydd mewn mannau chwarae a ddyluniwyd yn dda, a dylai rhieni a gofalwyr sy'n anabl allu cael mynediad i fannau chwarae pan fyddant yn hebrwng eu plant.

Er mwyn gwneud y gorau o fan chwarae, bydd angen i'r plant allu ei addasu a'i fowldio i ateb eu hanghenion chwarae a bydd angen iddo newid dros amser a darparu cyfleoedd newydd i chwarae. Bydd ychwanegu arwynebau o ddeunydd rhydd fel tywod neu risgl, cynnwys dŵr, coed a llwyni, yn darparu cyflenwad o rannau rhydd sy'n newid gyda'r tymhorau, y bydd y plant yn eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd cwbl ddyfeisgar.

Mae rhannau rhydd yn wrthrychau neu'n elfennau y gellir eu symud o gwmpas, eu haddasu, adeiladu, chwalu, cymysgu, neu eu llenwi â rhinweddau dychmygol – er enghraifft:

Papur, cerrig, brigau, dŵr, tywod, dail, plu, offer, hoelion, bocsys, ffabrig, rhaffau, pren, potiau, anifeiliaid, planhigion, metal, clai, mwd, byrddau, cadeiriau, blancedi, popeth ac unrhyw beth y gellir ei symud neu ei drin a'i drafod fel rhan o'r chwarae.

Mae'r mannau chwarae gorau yn cynnwys amrywiaeth eang o rannau rhydd ac mae'r plant yn rhydd i chwarae gyda nhw fel y mynnant.

**Nodweddion allweddol mannau chwarae da neu bethau i'w hystyried:**

- Mae'r mannau wedi eu dylunio gan ystyried anghenion a nodweddion y gymuned leol wrth ddynodi'r lleoliad ac ystod debygol y defnydd a'r defnyddwyr
- Mae gan y mannau chwarae gymeriad lleol pendant o ran y cynllun penodol, y deunyddiau a'r nodweddion gaiff eu cynnwys
- Caiff nodweddion naturiol y gofod, fel coed sydd yno eisoes a phyllau naturiol, eu parchu a'u hintegreiddio
- Mae'r gofod a'r cyd-destun cyflawn cyn bwysiced â nodweddion chwarae unigol wrth greu gofod chwarae llwyddiannus
- Mae gofodau'n cynnwys deunyddiau chwarae a nodweddion chwarae sy'n anghyfarwyddol ac, felly, sy'n annog dychymyg ac yn awgrymu llawer o wahanol ffyrdd y gellir chwarae arnynt neu gyda nhw
- Nid yw'r gofodau'n dibynnu ar offer chwarae gwneuthuredig ar gyfer y cyfleoedd chwarae a gynigir. Bydd y gofod chwarae'n defnyddio offer gwneuthuredig i gyfoethogi'r hyn a gynigir
- Mae dyluniad y gofod yn sicrhau pan fo offer chwarae'n cael ei ddefnyddio, ei fod wedi ei integreiddio gyda ac yn cyfannu nodweddion eraill yn y gofod chwarae
- Mae'r gofodau'n cynnwys cyfleoedd i blant wynebu neu greu her a risg.

## Nodyn ar offer penodol

Pan fo difrifoldeb cyflwr neu nam y plentyn yn golygu ei fod angen offer penodol, mae'n debyg y bydd angen i'r offer fod yn benodol iddo fel unigolyn[5]. Mae hyn yn berthnasol i nifer fechan iawn o blant. Mae'n bwysig inni sylweddoli nad oes 'un dull sy'n gweddu i bawb' ar gyfer cyflawni anghenion pob plentyn. Mae angen hefyd inni sicrhau y gall plant chwarae gyda'u ffrindiau yn y man chwarae a bod chwarae'n cael ei gyfoethogi gan ddarnau penodol o offer.

Gall offer arbenigol ddarparu cyfle gwerthfawr i rai plant anabl brofi'r teimlad o siglo a throelli ond, yn aml iawn, mae'r offer yma'n gostus. Yn achos rhai darnau o offer, yn enwedig siglenni ar gyfer cadeiriau olwyn, mae rhai pobl yn pryderu, oherwydd eu dyluniad, y gallant hybu gwahanu ac nad ydynt yn gynhwysol gan eu bod, fel arfer, yn cael eu ffensio i mewn a'u cloi.

Mae siglo yn weithgaredd boblogaidd iawn mewn mannau chwarae. Os oes modd gosod cadair olwyn ar y siglen, ai bod yn ddigon sefydlog i fynd arni a'i bod yn cynnig dewis o fathau o seddi a chynhaliaeth, gallant fod yn hygyrch i lawer o blant.

Pan benderfynir y byddai plant yn elwa o osod offer arbenigol, dylem ystyried:

- Y costau a'r buddiannau, yn enwedig ar gyfer siglen cadair olwyn o'i gymharu â dewisiadau eraill. Er enghraifft, a fyddai mwy o siglenni amlberson yn ychwanegu gwerth at brofiadau mwy o blant?
- Y seddi ar y siglenni. Ydyn nhw'n wastad a chaled? A yw'r seddi'n ddigon llydan, cryf a hyblyg i oedolyn eistedd arnynt? A oes cynhalydd cefn? Pa mor rhwydd yw hi i symud i'r siglen o gadair olwyn? A oes handlenni ar y sedd sy'n eich helpu i siglo?
- Gosod yr offer ar lwybr diddorol o fewn y man chwarae, ac yn agos i ble mae plant eraill yn chwarae.
- Os oes ffens o'i amgylch, allwn ni sicrhau bod yr offer yn hygyrch i bawb trwy beidio ei chloi?
- Os oes ffens o'i amgylch, allen ni ddefnyddio ffens is a defnyddio deunyddiau sydd ddim yn 'cuddio' yr offer.

'Dyw hi ddim yn ymarferol i ddarparu ystod gyflawn o gyfleusterau ym mhob man chwarae. Bydd mannau chwarae'n amrywio o ran maint a hygyrchedd gan y cânt eu dylunio i wasanaethu gwahanol ddefnyddwyr fydd yn teithio o wahanol bellteroedd.

Yr hyn sy'n bwysig yw bod penderfyniadau'n cael eu seilio ar y wybodaeth ddiweddaraf. Bydd buddsoddi yn ansawdd a hygyrchedd yr amrywiol fannau ledled ardal yr awdurdod lleol yn cael effaith cadarnhaol ar gyfer pob plentyn.


© Chwarae Torfaen

# Diffiniadau defnyddiol

### Lle chwarae dynodedig

Lle sydd wedi ei ddynodi'n benodol i blant chwarae ynddo. Mae'n bosibl y bydd yn cynnwys offer maes chwarae traddodiadol neu nodweddion naturiol fel tywod, plociau coed, dŵr a chreigiau. Efallai y bydd hefyd yn cynnwys adnoddau neu gyfleusterau eraill fel biniau sbwriel, toiledau a meinciau.

O'r rhestr termau a geir yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, cyfarwyddyd statudol ar gyfer awdurdodau lleol ar asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd:

- **Ar garreg y drws**: Mannau chwarae y gellir eu gweld o gartref, lle mae plant, yn enwedig plant ifanc, yn gallu chwarae a bod oedolion y maent yn eu hadnabod yn gallu cadw llygad arnynt.
- **Lleol**: Mannau mwy o faint y gall plant sy'n dechrau teithio ar eu pen eu hunain a chyda ffrindiau eu cyrraedd yn ddiogel, heb i oedolion eu tywys, ac y gall oedolion â phlant bach gerdded iddynt yn hawdd.
- **Cymdogaeth**: Man neu gyfleuster mwy o faint y gall plant a phobl ifanc, sy'n gyfarwydd â theithio pellteroedd hwy ar eu pen eu hunain, ei gyrraedd yn ddiogel a threulio amser yn chwarae ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden anffurfiol gyda'u cymheiriaid a chael ystod ehangach o brofiadau chwarae.
- **Mannau lle y gall plant chwarae neu fan cyhoeddus a rennir**: Ardal lle y gall plant chwarae nad yw wedi'i dynodi'n benodol at ddibenion chwarae ac nad chwarae yw ei phrif swyddogaeth neu eu hunig swyddogaeth.
- **Ardaloedd chwarae cyrchfan**: Mannau chwarae o fewn safle allweddol, fel parc. Eu nod yw denu teuluoedd a grwpiau tebyg am gyfnodau hwy ac maent yn dueddol o fod o'r un faint neu'n fwy na safleoedd yn y gymdogaeth.
- **Prosiect gwaith chwarae peripatetig (ceidwaid chwarae)**: Prosiect mynediad agored, byrdymor yn aml, a gaiff ei staffio gan dîm bach o weithwyr chwarae hyfforddedig, sy'n ymweld â man gwahanol, parc, ardal chwarae ar ystâd neu fan cyhoeddus arall, unwaith neu ddwywaith yr wythnos am ychydig oriau. Bydd ganddynt syniadau ac offer, a byddant yn gweithio i helpu i ddarparu mannau chwarae i blant yn eu hardal leol, ac i roi tawelwch meddwl i rieni ei bod yn ddiogel i blant chwarae yn yr awyr agored.
- **Gwaith chwarae**: Mae gwaith chwarae yn broffesiwn medrus iawn sy'n cyfoethogi ac yn gwella chwarae plant. Mae oedolion yn cefnogi plant wrth iddynt chwarae ond nid canlyniadau rhagnodedig o ran addysg neu ofal yw symbyliad y chwarae hwnnw[6].

### Offer chwarae neu faes chwarae

Offer sydd wedi ei ddylunio ar gyfer chwarae – fel siglenni, llithrennau a strwythurau i'w dringo.

### Chwarae cynhwysol

Mae chwarae cynhwysol yn golygu bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad cyfartal i ddarpariaeth chwarae leol o ansawdd uchel. Mae hyn yn golygu y gallant chwarae gydag eraill neu ar eu pen eu hunain, fel y mynnant, mewn amgylchedd cyfoethog sy'n cefnogi eu hanghenion chwarae ac sy'n rhoi mynediad iddynt i ystod eang o gyfleoedd chwarae.

### Mannau chwarae hygyrch

Man chwarae sydd wedi ei ddylunio heb unrhyw rwystrau amgylcheddol afresymol i gyrraedd ato neu i symud ynddo neu o'i amgylch. Mae'n hawdd cael mynediad i'r cyfleoedd chwarae sydd yn y gofod. Ond, nid yw'n dileu heriau derbyniol, sy'n nodwedd bwysig o le chwarae o ansawdd. Gall lle chwarae hygyrch gael ei ddefnyddio gan fwy nag un plentyn ar y tro, mewn mwy nag un ffordd. Mae amrywiaeth o ffyrdd i symud trwy'r gofod a detholiad o wahanol ddarnau o offer y gellir rhoi tro arnynt a'u defnyddio.

### Dylunio cynhwysol

Bathwyd y term 'universal design' neu ddylunio cynhwysol gan Ronald Mace i ddisgrifio'r cysyniad o ddylunio pob cynnyrch a'r amgylchedd adeiledig i fod yn ddeniadol ac mor ddefnyddiadwy â phosibl, gan bawb, waeth beth fo'u hoedran, eu gallu neu eu statws mewn bywyd[7].

Mae dylunio cynhwysol yn canolbwyntio ar greu gofod sy'n ateb anghenion y nifer mwyaf posibl o bobl. Mae lle chwarae sy'n seiliedig ar ddylunio cynhwysol yn golygu y gall pawb ddefnyddio'r mwyafrif o'r nodweddion. Mae'n hawdd symud o amgylch y gofod ac mae'n caniatáu mynediad i offer gyda'r ymdrech lleiaf posibl. Mae digon o le i symud o gwmpas nodweddion ac offer.

### Nam

Anaf, salwch, neu gyflwr cynhwynol sy'n achosi, neu sy'n debyg o achosi, effaith hirdymor ar olwg ffisegol a / neu gyfyngiad ar weithrediad yn yr unigolyn sy'n wahanol i'r arferol[8].

### Plant a phobl ifanc anabl

Y bobl hynny sy'n profi gwahaniaethu ar sail eu nam a / neu gyflwr meddygol. Gall arferion gwahaniaethol, fel agweddau negyddol, amgylcheddau anhygyrch a systemau sefydliadol ei gwneud hi'n anodd, ac yn amhosibl weithiau, i blant a phobl ifanc anabl brofi'r broses chwarae'n ei chyfanrwydd.



# Taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), mewn cydweithrediad â'r Play Safety Forum (PSF), wedi cyhoeddi datganiad lefel uchel ar y cyd i hyrwyddo agwedd gytbwys tuag at reoli risg mewn chwarae plant[9]. Mae'r datganiad yn pwysleisio mai'r nod, wrth gynllunio a darparu cyfleoedd chwarae, yw nid dileu risg ond yn hytrach ystyried y risgiau yn ogystal â'r buddiannau.

Mae rheoli risg mewn darpariaeth chwarae'n golygu taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau mewn modd strategol. Felly, mae'n allweddol bod gan ddarparwyr fframwaith polisi clir a chroyw ar gyfer darpariaeth chwarae sy'n amlinellu'r nodau gwasanaeth cyffredinol, sy'n hysbysu'r agwedd tuag at risg a diogelwch, ac sy'n ategu'r rhesymau dros benderfyniadau penodol. Bydd polisi sy'n egluro'n gwbl glir yr angen am gyfleoedd chwarae heriol, gyda lefel derbyniol o risg, yn helpu darparwyr i wrthsefyll ceisiadau digyfiawnhad am iawndal o ganlyniad i esgeulustod. Mae templed o bolisi rheoli risg wedi ei gynnwys yn adran 'Offer i gynorthwyo' y pecyn cymorth yma.

Mae fframwaith polisi yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cynnal asesiadau risg-budd. Mae asesiadau risg-budd yn dwyn ynghyd ddadansoddiadau deallus o'r risgiau yn ogystal â'r buddiannau. Mae *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*[10] yn amlinellu ffurf ddisgrifiadol o asesu risg-budd sy'n caniatáu i ddarparwyr nodi, yn ysgrifenedig, yr holl ystyriaethau perthnasol sydd y tu ôl i farn neu weithdrefn benodol. Ymgynghorwyd â'r HSE wrth gynhyrchu'r cyhoeddiad hwn. Mae'n cymeradwyo'r cyngor synhwyrol, cymesur, rhesymol a chytbwys i ddarparwyr chwarae ar reoli diogelwch cyfranogwyr a geir yn y canllaw.

Pan fo gan fannau chwarae'r offer a'r deunyddiau cywir, yn y man cywir, gyda'r polisïau a'r gweithdrefnau cywir yn eu lle ar gyfer archwiliadau a gwaith cynnal a chadw, yna bydd y ddarpariaeth chwarae mor ddiogel ag sy'n rhesymol ymarferol, sef yr hyn a fynnir gan y gyfraith. Mae'n bwysig gosod materion sy'n ymwneud â diogelwch a risg mewn cyd-destun. Bydd llawer o blant a phobl ifanc yn mynd ati'n weithredol i chwilio am brofiadau chwarae anturus a chyffrous, sy'n cynnwys elfen o risg.



‘Mae gormod o egni a sylw’n cael eu rhoi i risg corfforol. Mae ffurflenni asesu risg yn methu â chydnabod bod pob plentyn a pherson ifanc yn wynebu mwy na risg corfforol yn unig pan fyddant yn chwarae. Fel oedolion cyfrifol, mae cyfrifoldeb arnom i gadw plant yn ddiogel ond mae hyn yn cynnwys cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i reoli risg drostynt eu hunain, nid dim ond risg corfforol ond hefyd y risgiau deallusol, cymdeithasol ac emosiynol y maent yn agored iddynt.

Gallwn ni i gyd gofio’r adegau yn ein plentyndod pan oeddem yn ansicr ynghylch sut i wneud rhywbeth neu’n amau a allem ei wneud, yn ofni y gallem wneud ffwl o’n hunain o flaen ein cyfoedion neu deimlo’n ddig neu wedi’n cynhyrfu oherwydd nad oedd ein ffrindiau wedi’n cynnwys mewn rhyw weithgaredd. Ond fe ddysgon ni sut i ddelio â’r risgiau ac weithiau, oedd, roedd yna boen gorfforol, emosiynol ac fe wnaethon ni’r penderfyniadau anghywir ond fe ddysgon ni wers yn sgîl hynny ac anaml iawn y byddem yn gwneud yr un camgymeriad eilwaith.

Ychydig o gyfleoedd sydd i blant a phobl ifanc anabl chwarae’n annibynnol ac mae’n rhaid derbyn ein bod ni i gyd wedi cymryd mwy o risgiau yn ein plentyndod pan nad oedd oedolion o’n cwmpas. O ganlyniad mae plant a phobl ifanc anabl yn llawer llai tebygol o gael cyfle i brofi’r risgiau emosiynol, deallusol a chymdeithasol sy’n fodd i blant feistroli heriau a delio â’u hymateb emosiynol iddynt.

### Ydy risg yn fwy o risg i blant anabl?

Fel rhieni, gofalwyr a phobl gariadus, mae’n gwbl naturiol ein bod ni am gadw plant yn ddiogel bob amser. Os ydym ni’n gyfrifol am ofal a lles plentyn anabl, hwyrach fod gweithwyr proffesiynol iechyd a chymdeithas yn gyffredinol, ynghyd â’n euogrwydd personol, wedi dweud wrthym fod angen inni fod yn fwy gofalus; a derbyn cyfrifoldeb am sicrhau bod bywyd y plentyn anabl hwn mor hawdd â phosibl.

“Maldodi” yw’r gair sydd fel arfer yn dod i’r meddwl wrth i ni feddwl am blant anabl yn wynebu risg. Nid risgiau corfforol yn unig ond y cyfleoedd emosiynol, deallusol a chymdeithasol a ddaw yn sgîl: colled, gwrthodiad, llwyddiant a gwneud camgymeriadau. Mae lle i ddadlau mai po fwyaf y bydd oedolion yn maldodi, mwyaf y bydd plant yn gwthio’r ffiniau. P’un a ydyn ni’n hoffi hynny neu beidio, bydd plant anabl a phlant heb anabledd yn chwilio am gyfleoedd i gymryd risg a gwthio ffiniau.

Wrth imi fwrw golwg yn ôl dros fy mhlentyndod fy hun, rwy’n gwenu wrthyf fy hun wrth gofio am yr adegau niferus pryd y byddwn yn mynd ati’n fwriadol i chwilio am bethau peryglus a drwg i’w gwneud. I mi, y peth pwysig oedd y wefr o lwyddo; a gawn i fy nal? Beth byddai’n digwydd petawn i’n cael fy nal?

Mae gennyf atgofion clir ohonof yn aros i’r nyrs nos orffen ei rhawd, yn neidio allan o’r gwely, yn croesi’r ystafell gysgu, ac yn helpu Jenny, fy ffrind gorau, i eistedd yn ei chadair olwyn, ac i ffwrdd â ni yn slei bach i ystafell gysgu y bechgyn i roi cusan nos da yr un iddynt ... yn gyfnewid am sigaréts.

Wrth edrych yn ôl ar hyn a nodi’r gwahanol fathau o risg a gymerais, ydyn nhw’n wahanol o gwbl i’r risgiau mae plant heb anabledd yn eu cymryd? Onid oeddwn i eisiau teimlo gwefr debyg dychryn, cael fy nal, cael pryd o dafod, teimlo’n bwerus, torri’r rheolau? Mae’r teimladau a’r heriau hyn a ddaw i’n rhan drwy chwarae yn angenrheidiol i’n paratoi ni i gyd ar gyfer bywyd.

Mae ar bob plentyn angen ac eisiau cymryd risgiau wrth chwarae i’w galluogi i brofi ffiniau, rhoi cynnig ar brofiadau newydd a datblygu eu sgiliau. Ni fyddai plant byth yn dysgu beicio, nofio, dringo coed neu sglefyrddio oni bai bod cymhelliad cynhenid ynddynt i ymateb i heriau sy’n cynnwys risg o fethu neu o gael anaf.

Mae ar blant anabl fwy o angen i ddarparwyr chwarae ddarparu cyfleoedd iddynt gymryd risgiau, oherwydd anaml y cânt ddewis neu gyfle i fwynhau’r un amrediad o risgiau ag sydd ar gael i’w cyfoedion heb anabledd.’

*Rhan o erthygl a ysgrifennwyd gan Alison John, hyfforddwraig ac eiriolwr cydraddoldeb, cynhwysiad a chwarae. Ymddangosodd yn gyntaf yn rhifyn Gwanwyn 2016 cylchgrawn Chwarae dros Gymru.*

# Adborth gan blant a rhieni

### Yr hyn y mae rhieni wedi ei ddweud

Mae rhieni plant sydd ag amrywiol gyflyrau a namau wedi dynodi amrywiaeth o drafferthion y maent wedi eu hwynebu wrth geisio cael mynediad i rai mannau chwarae:

- Cyfleusterau heb eu dylunio i gynnwys rhieni a gofalwyr
- Arwynebau amhriodol
- Anhawster wrth fynd ar hyd llwybrau a chyrraedd at nodweddion chwarae
- Diffyg cyfleusterau cefnogol hygyrch, fel toiledau hygyrch, ystafelloedd newid, seddi, meysydd parcio a ffensys
- Methu cyfranogi oherwydd dyluniad yr offer
- Methu cyfranogi oherwydd bod yr offer mor boblogaidd
- Ddim yn teimlo eu bod yn perthyn a bod dim croeso iddynt
- Anawsterau wrth fonitro ac ateb anghenion plant eraill sydd yn eu gofal.



Mae blaenoriaethau rhieni plant anabl yn cynnwys:

- Llwybr teithio hygyrch i'r parc ac oddi mewn ac o amgylch y gofod
- Nodweddion neu bethau i'w gwneud yn ychwanegol i offer sefydlog
- Yn bosibl i blant o amrywiol oed a gallu i'w fwynhau
- Gofod sy'n annog rhyngweithio gyda phlant eraill ac aelodau o'r teulu
- Amwynderau a chyfleusterau cefnogol hygyrch.

### Yr hyn y mae plant wedi ei ddweud

Canfu arolwg gan Sefydliad Bevan, er bod ymweld â'r parc wedi ei nodi fel gweithgaredd rheolaidd y mae plant anabl yn ei mwynhau, bod mwy na thraean wedi dweud eu bod byth, neu bron byth, yn ymweld â'r parc[11].

Mae trafodaethau anffurfiol rhwng Chwarae Cymru a phlant a phobl ifanc anabl wedi datgelu eu bod:

- Yn ofnus ynghylch cael eu bwlio neu eu pryfocio
- Ddim yn teimlo bod croeso iddynt mewn parciau, ardaloedd chwarae a mannau agored
- Yn teimlo bod mannau ar gyfer chwarae a chymdeithasu'n ddiflas a heb ddigon o ddewis
- Yn teimlo bod yr oedolion yn eu bywydau yn eu gwarchod yn ormodol
- Yn poeni am roi tro ar rywbeth newydd
- Yn teimlo bod pobl yn nerfus o amgylch person gyda anableddau
- Yn teimlo'n annifyr oherwydd y bydd pobl eraill, weithiau, yn 'rhythu' arnyn nhw.

*'Fel arfer dwi'n cael fy ngwarchod ormod, felly roedd hi'n braf gwneud rhywbeth oedd yn teimlo allan o reolaeth.'*[12]

# Offer i gynorthwyo


| | |
|---|---|
| 1: Camau y gallwn eu cymryd i ddatblygu mannau chwarae cynhwysol | 16 |
| 2: Archwiliad man chwarae | 18 |
| 3: Asesiad mynediad i fannau chwarae | 21 |
| 4: Offeryn hunan-asesu: dylunio a darparu man chwarae hygyrch | 27 |
| 5: Rhagweld cydraddoldeb a chynllunio dyluniad rhesymol | 30 |
| 6: Ystyriaethau dylunio safle | 33 |
| 7: Cynllunio ar gyfer dylunio rhesymol wrth adfywio mannau chwarae | 35 |
| 8: Cynnal dadansoddiad opsiynau | 36 |
| 9: Gwerth chwarae: gwybodaeth i rieni | 38 |
| 10: Hyrwyddo’r man chwarae | 39 |
| 11: Polisi rheoli risg | 40 |
| 12: Ystyriaethau allweddol ar gyfer ardaloedd chwarae newydd | 42 |




# Offeryn 1: Camau y gallwn eu cymryd i ddatblygu mannau chwarae cynhwysol

Adolygwch ac aseswch yr holl fannau chwarae yn ardal yr awdurdod lleol a dynodwch os ydynt yn darparu ystod o gyfleoedd amrywiol ar gyfer plant a theuluoedd. Dynodwch unrhyw ddiffygion.

↓

Pennwch gyllideb (sy'n cynnwys costau tymor hirach).
Dylai hyn gynnwys gweithgarwch a ragwelir - pa gyllideb fydd ei hangen i ddiweddaru a gwella'r ardal?

↓

Cynhaliwch broffil cymunedol. Dylech ystyried: data poblogaeth, sut y bydd plant a theuluoedd yn teithio i'r safle, a oes ardal leol y gellir ei defnyddio neu ei gwella (fel tir ysgol).
Defnyddiwch Offeryn 2 (Archwiliad man chwarae ) i'ch helpu i ddynodi lleoliadau chwaraeadwy lleol a defnyddiwch Offeryn 3 (Asesiad mynediad i fan chwarae) i ystyried gofynion mynediad.

↓

Os yw gweithgareddau ymgysylltu'n rhan o'r cynllun, cofiwch sicrhau na fyddwch yn codi gobeithion a byddwch yn onest ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni.

↓

Penderfynwch ar y lleoliad. Dylech ystyried: gwerth chwarae ac apêl, a mynediad ar gyfer pob defnyddiwr posibl.

↓

Yn seiliedig ar y gweithgareddau ymgysylltu a phroffilio cymunedol, penderfynwch ar y cyfleusterau eraill sydd i'w cynnwys, fel:

- Meinciau
- Lloches a chysgod
- Storfa beiciau
- Toiledau a chyfleusterau newid
- Parcio a llwybrau mynediad eraill
- Biniau sbwriel
- Arwyddion

↓

Ail edrychwch ar a diwygiwch y gyllideb (sy'n cynnwys costau tymor hirach).
Dylai hyn gynnwys gweithgarwch a ragwelir – pa gyllideb fydd ei hangen i ddiweddaru a gwella'r ardal?

↓

Datblygwch ddogfen briffio dyluniad a phenodwch ddylunydd. Dylech gynnwys eich gofynion ar gyfer y cynllun, sy'n cynnwys cyfleoedd ar gyfer profiadau corfforol, cymdeithasol a synhwyraidd:

- Gweithgarwch corfforol
- Ysgogi'r synhwyrau
- Llecynnau tawel
- Mannau cymdeithasol
- Lloches
- Nodweddion naturiol
- Risg a her

Gofynnwch i'r dylunydd nodi'n glir holl nodweddion hygyrch eu cynllun. Wrth asesu ceisiadau dylunio dylech, yn benodol, chwilio am:

- Werth chwarae
- Llwybrau hygyrch at a thrwy'r gofod
- Elfennau naturiol
- Rhannau rhydd a deunyddiau eraill
- Sut y gallai plant anabl ddefnyddio'r gofod (gweler Offeryn 5: Rhagweld cydraddoldeb a chynllunio dyluniad rhesymol)
- Sut mae'r dylunydd, trwy weinyddiaeth y cytundeb, yn bwriadu ymgysylltu â'r contractwyr i sicrhau cyfathrebu da.

↓

Adeiladwch neu sefydlwch y man chwarae.

↓

Gwnewch unrhyw waith cynnal a chadw ac adolygwch ei ddefnydd. Dynodwch sut y gellid ei wella.

# Offeryn 2: Archwiliad man chwarae

<table>
<tr><td>Enw’r safle:</td><td colspan="2"></td><td>Arsylwyd y safle gan:</td><td></td></tr>
<tr><td>Arsylwad o’r safle:</td><td>Diwrnod a dyddiad yr arsylwad:</td><td>Cyfnod arsylwi (e.e. hanner tymor / ar ôl ysgol / yn ystod diwrnod ysgol / penwythnos / gyda’r nos):</td><td>Amser y cyfnod arsylwi:</td><td>Tywydd:</td></tr>
<tr><td>Prif nodweddion y safle:</td><td colspan="4">Disgrifiad cryno o’r prif nodweddion, yn cynnwys mynedfeydd (fel llethrau, coed, llwyni, gwylfâu, lleoedd i guddio, pethau i ddringo arnynt neu drostynt, seddau a mannau cyfarfod, ardaloedd gwastad, yn ogystal ag unrhyw nodweddion chwarae gwneuthuredig sydd wedi eu gosod yno). Dylid nodi unrhyw arwyddion o ddefnydd penodol, er enghraifft glaswellt wedi treulio, canghennau wedi eu torri, olion olwynion beics, sbwriel, graffiti. Gellir nodi manylion pellach am y rhain o dan unrhyw arsylwadau gweithgarwch.</td></tr>
<tr><td>Defnydd gan blant ac oedolion: (niferoedd)</td><td>Gwryw:</td><td>Benyw:</td><td>Bras amcan oedran: e.e. dan 5, 5-8, 8-13, 13-15, 15+)</td><td>Cyfanswm:</td></tr>
<tr><td>Plant / pobl ifainc mewn grŵp:</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Plant / pobl ifainc unigol:</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Wedi eu hebrwng gan oedolion:</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Oedolion unigol:</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">Arsylwyd gweithgarwch ym mhresenoldeb plant a phobl ifainc:</td><td colspan="2">Os nad ydynt yn bresennol, cofnod o arwyddion bod plant a phobl ifainc wedi bod yno ac yn gwneud defnydd o’r safle:</td></tr>
<tr><td>Cerdded, teithio trwy’r man chwarae:</td><td colspan="2"></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Eistedd, ymgasglu, cymdeithasu:</td><td colspan="2"></td><td colspan="2"></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| Reidio beic, sgwter, sglefrfwrdd: | | |
| Defnyddio nodweddion naturiol (e.e. coed, llwyni, twmpathau, bryniau): | | |
| Chwarae â'r elfennau (dŵr, daear [mwd], tân, awyr): | | |
| Defnyddio'r synhwyrau (blas, arogl, golwg, sŵn, gwead): | | |
| Symud (e.e. rhedeg, neidio, dringo, balansio, rholio): | | |
| Chwarae gwyllt: | | |
| Risg a her (corfforol): | | |
| Chwarae â mân offer / rhannau rhydd: | | |
| Chwarae â hunaniaeth: | | |
| Defnyddio cerbydau modur (e.e. beiciau modur neu feiciau modur pedair olwyn): | | |
| Cerdded cŵn: | | |

### Cynllun gweithredu man chwarae

Argymhellion ar gyfer datblygu a chyfoethogi'r safle er mwyn mwyafu'r lefel 'chwaraeadwy', yn cynnwys unrhyw gamau ar gyfer gwarchod y modd y mae plant a phobl ifainc yn defnyddio'r safle ar hyn o bryd, gan gyfeirio at weithgareddau a arsylwyd.

| Camau ar gyfer datblygu a chyfoethogi mannau chwaraeadwy: | Camau ar gyfer gwarchod mannau chwaraeadwy: |
|---|---|
| Er enghraifft – Mae plant yn defnyddio'r man coediog uchel gerllaw'r man chwarae ar gyfer adeiladu cuddfannau a chwarae tic. Mae mynediad i'r ardal yma wedi ei rwystro ar hyn o bryd gan ffens wifrau sydd wedi ei gwasgu i lawr – edrych ar ffurfioli mynediad i'r ardal yma. | Er enghraifft – Mae'r siglenni sydd yma eisoes angen eu hadnewyddu, ond maent yn cael llawer iawn o ddefnydd. Angen eu hadnewyddu a'u cynnwys yn y cynllun newydd ar gyfer y safle. Ystyried arwyneb diogel mwy naturiol (tywod neu risgl). |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

### Cynllun gweithredu anghenion chwarae

Sut mae'r arsylwadau'n cyfrannu at dystiolaeth am yr hyn y mae'r plant / y gymuned ei eisiau?

| Tystiolaeth o angen | Camau gweithredu |
|---|---|
| Er enghraifft – Mae arsylwadau'n dangos bod y plant yn mwynhau dringo coed ar hyd ymyl y safle. | Er enghraifft – Sicrhau bod y dylunio'n gofyn i'r dylunydd chwarae sicrhau bod mynediad i'r coed. |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

# Offeryn 3: Asesiad mynediad i fannau chwarae

**Mannau chwarae dynodedig – ardaloedd a ddynodwyd yn arbennig i blant chwarae fel eu prif swyddogaeth**

### Math A:
Ar garreg y drws: mannau chwarae y gellir eu gweld o gartref, lle mae plant, yn enwedig plant ifanc, yn gallu chwarae a bod oedolion hysbys yn gallu cadw llygad arnynt.

### Math B:
Lleol: ardaloedd mwy o faint y gall plant sy'n dechrau teithio ar eu pen eu hunain a chyda ffrindiau eu cyrraedd yn ddiogel, heb i oedolion eu tywys, ac y gall oedolion â phlant bach gerdded iddynt yn hawdd.

### Math C:
Cymdogaeth: man neu gyfleuster mwy o faint y gall plant a phobl ifanc, sy'n gyfarwydd â theithio pellteroedd hwy ar eu pen eu hunain, ei gyrraedd yn ddiogel a threulio amser yn chwarae ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden anffurfiol gyda'u cymheiriaid a chael ystod ehangach o brofiadau chwarae.

### Math Ch:
Tir agored: tir a osodir ac a ddefnyddir gan y cyhoedd at ddibenion hamdden neu sydd o werth i'r cyhoedd.

| | |
|---|---|
| **Enw'r safle:** | |
| **Math o safle (A, B, C, Ch)** | |
| **Disgrifiad cryno o'r prif nodweddion**, yn cynnwys mynedfeydd (fel llethrau, coed, llwyni, gwylfâu, lleoedd i guddio, pethau i ddringo arnynt neu drostynt, seddau a mannau cyfarfod, ardaloedd gwastad; yn ogystal ag unrhyw nodweddion chwarae gwneuthuredig sydd wedi eu gosod yno). Dylid nodi unrhyw arwyddion o ddefnydd penodol e.e. glaswellt wedi treulio, canghennau wedi eu torri, olion olwynion beics, sbwriel neu graffiti | |
| **Dyddiad yr asesiad:** | |
| **Amser:** | |
| **Tywydd:** | |
| **Enw'r asesydd:** | |

| Arwyddion | ✓ | ✗ |
|---|---|---|
| Mae’r arwyddion yn cynnwys enw gweithredwr y safle | | |
| Nodwch fanylion gweithredwr y safle isod, waeth os yw eu manylion ar yr arwydd ai peidio: | | |
| Mae’r arwydd yn cynnwys manylion cyswllt ynghylch sut i adrodd am ddifrod neu ddamweiniau, fel manylion rhif ffôn cyswllt | | |
| Mae’r arwydd yn nodi lleoliad y blwch ffôn cyhoeddus agosaf er mwyn cysylltu â’r gwasanaethau brys (ddim yn hanfodol) | | |
| Arwydd Dim Cŵn wedi ei osod (argymhellir) | | |
| Rhybudd Dim Hedfan Barcutiaid ar yr arwydd os oes gwifrau trydan uwchben (argymhellir) | | |
| Arwyddion ffyrdd i rybuddio gyrwyr am bresenoldeb maes chwarae / ardal 20 mya | | |
| Arwyddion yn eglur a rhwydd i’w darllen, yn cynnwys i bobl â nam ar eu golwg | | |
| Arwyddion i groesawu plant anabl a theuluoedd | | |
| Neges Dim Ysmygu ar yr arwyddion | | |
| Unrhyw sylwadau pellach ar yr arwyddion: | | |

| **Lleoliad** | ✓ | ✗ |
|---|---|---|
| Wedi ei leoli mewn man hygyrch | | |
| Â digon o arwyddion fel ei fod yn rhwydd i'w ganfod | | |
| Tystiolaeth bod digon o olau yno er enghraifft lampau stryd neu oleuadau eraill | | |
| Mae mynedfeydd ac allanfeydd yr ardal chwarae'n hygyrch mewn cadair olwyn h.y. mae'n rhwydd i berson mewn cadair olwyn agor, mynd trwy a chau'r gatiau, ac maent o leiaf 32 modfedd / 82 cm o led | | |
| Nid oes unrhyw newidiadau uchder sydyn ar lwybrau fydd yn golygu eu bod yn anodd i wthio bygi neu gadair olwyn arnynt | | |
| Ceir canllawiau ble y gallant fod o gymorth i berson sydd ag anawsterau symud | | |
| Mae'r arwynebau ym mynedfa'r ardal chwarae'n glir ac yn rhydd o unrhyw elfennau allai achosi i berson faglu neu lithro | | |
| Mae'r maes chwarae'n agos i faes parcio / mannau parcio | | |
| Ceir cyrbiau isel ar balmentydd cyfagos ar gyfer cadeiriau olwyn a bygis | | |
| Byddai mynediad wedi ei reoli i gerbydau i'r safle'n gwella mynediad ar gyfer pobl sydd ag anawsterau symud (er enghraifft, os yw hi'n bell i gerdded i'r ardal chwarae o'r maes parcio agosaf) | | |
| Ceir toiledau ar neu ger y safle | | |
| Ceir cysgodfan ar y safle | | |
| Ceir cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus ger y safle | | |

| Gofal a chynnal a chadw | ✓ | ✗ |
|---|---|---|
| Mae'r offer ar y safle'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda (rhestrwch isod) | | |
| Mae'r safle wedi ei gynnal a'i gadw'n dda | | |
| Mae'r gatiau a'r mynedfeydd yn gweithio'n iawn | | |
| Darperir biniau sbwriel | | |
| Os y darperir rhai, mae'r biniau sbwriel wedi eu cynnal a'u cadw'n dda | | |
| Mae'r safle'n daclus ac nid oes unrhyw sbwriel i'w weld | | |
| Nid oes gwydr wedi torri ar y safle | | |
| Nid oes unrhyw olwg o faw cŵn ar y safle | | |
| Ceir biniau baw cŵn mewn mannau cyfleus ger y safle | | |
| Ceir toiledau ar neu ger y safle | | |
| Os oes rhai, mae'r toiledau yn lân ac wedi eu cynnal a'u cadw'n dda | | |
| Os oes rhai, mae'r gysgodfan a / neu'r meinciau wedi eu cynnal a'u cadw'n dda | | |
| Ceir cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus ger y safle | | |
| Rhestrwch yr offer a geir ar y safle: | | |
| Unrhyw sylwadau pellach ar y safle neu'r offer: | | |

| Gwerth chwarae | ✓ | ✗ |
|---|---|---|
| Mae'r ardal chwarae'n edrych yn ddeniadol a chyffrous mewn modd sy'n annog chwarae | | |
| Mae'r plannu, er enghraifft llwyni, coed a phlanhigion, yn ychwanegu gwerth chwarae | | |
| Mae nodweddion naturiol, er enghraifft torlannau a phantiau, waliau cerrig, yn ychwanegu gwerth chwarae | | |
| Mae offer wedi ei addasu i fod yn hygyrch i blant â namau (er enghraifft seddi siglen arbennig o gryf â gwregys / harnais diogelwch, rowndabowts ar lefel y llawr i alluogi mynediad i gadeiriau olwyn) | | |
| Ceir digon o ofod ar gyfer symud cadeiriau olwyn rhwng gwahanol ddarnau o offer | | |
| Mae'r arwynebau'n yr ardal chwarae'n galluogi defnyddwyr cadeiriau olwyn (boed yn rieni neu'n blant) i symud o amgylch yr ardal chwarae, er enghraifft ceir llwybrau heb unrhyw lethrau serth wedi eu creu o darmac neu goncrid (mae glaswellt yn arwyneb anodd ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn) | | |
| Ceir digon o ofod o amgylch pob darn o offer chwarae er mwyn caniatáu i blant chwarae a symud yn ddiogel rhwng gweithgareddau | | |
| Mae'r safle / offer chwarae'n ateb anghenion plant dan oed ysgol, 1 – 3 mlwydd oed | | |
| Mae'r safle / offer chwarae'n ateb anghenion plant oed cynradd, 4 – 11 mlwydd oed | | |
| Mae'r safle / offer chwarae'n ateb anghenion pobl ifainc, 11 – 16 mlwydd oed | | |
| Mae mannau eistedd ar gael ar gyfer rhieni a gofalwyr | | |
| Mae mannau eistedd ar gael ar gyfer plant 1 – 10 oed | | |
| Gall y plant eistedd ar ben neu o dan yr offer neu'r nodweddion naturiol | | |
| Ceir ardaloedd sy'n darparu cysgod a lloches | | |
| Ceir cyfleoedd ar gyfer y mathau chwarae canlynol: | | |
| Chwarae cymdeithasol â phobl eraill | | |
| Chwarae ar eich pen eich hun | | |
| Rhedeg | | |

| | | |
|---|---|---|
| Neidio | | |
| Siglo | | |
| Llithro | | |
| Balansio | | |
| Rholio | | |
| Chwarae gwyllt | | |
| Gemau pêl | | |
| Offer chwarae ar olwynion, fel beiciau a sgwteri | | |
| Chwarae â rôl, hunaniaeth neu ddychymyg | | |
| Cilfachau ac agennau ar gyfer chwarae cuddio neu adeiladu cuddfannau | | |
| Llwybrau cudd trwy'r llwyni neu'r coed | | |
| Rhannau rhydd ar gyfer creu cuddfannau | | |
| Chwarae â'r elfennau, tân | | |
| Chwarae â'r elfennau, tywod neu bridd | | |
| Chwarae â'r elfennau, dŵr | | |
| Caniateir chwaraeon pêl | | |
| Caniateir offer chwarae ar olwynion yn yr ardal chwarae | | |
| Mae'r ardal chwarae wedi ei dylunio i gydweddu â'r safle | | |
| Ceir nodweddion sy'n caniatáu ar gyfer risg a her | | |
| Mae'r ardal chwarae'n cael llawer o ddefnydd gan blant, er enghraifft ceir tystiolaeth fel llwybrau wedi eu gwisgo a chlytiau wedi eu gwisgo o dan yr offer | | |
| Unrhyw sylwadau pellach ar werth chwarae: | | |

**Mae'r asesiad mynediad yma yn tynnu ar ddeunyddiau â ddatblygwyd a pheilotwyd gan RAY Ceredigion. Fe'i datblygwyd gan ddefnyddio'r adnoddau canlynol:**


The Royal Society for the Prevention of Accidents (2004) *Signs for Play Areas*. Birmingham: RoSPA.

Llywodraeth Cymru (2012) *Creu cyfle i chwarae: Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol ar asesu os oes digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Chwarae Cymru (2012) *Datblygu a rheoli mannau chwarae – pecyn cymorth cymunedol*. Caerdydd: Chwarae Cymru.

Play England (2009) *Tools for evaluating play provision: the local play indicators*. Llundain: Play England.

Goodridge, C. (2008) *Inclusion by Design – a guide to creating accessible play and childcare environments*. Llundain: KIDS.

# Offeryn 4: Hunan-asesu: dylunio a darparu man chwarae hygyrch

### Hygyrchedd: ystyriaethau dylunio

Dylai hygyrchedd i fan chwarae gael ei gynnwys yn y broses ddylunio o'r cychwyn cyntaf neu ei ystyried mewn unrhyw gynlluniau gwella. Bydd angen ystyried y canlynol:

- Cyrraedd at a defnyddio'r gofod
- Gatiau a mynedfeydd eraill
- Llwybrau a ffyrdd o amgylch y llecyn
- Arwynebau
- Offer chwarae, deunyddiau neu nodweddion sy'n annog chwarae cynhwysol
- Mynediad i leoliadau ar gyfer ymgasglu a chymdeithasu
- Cyfleusterau (fel parcio a thoiledau)
- Nodweddion synhwyraidd (planhigion, synau, cyffyrddadwy, pethau diddorol i edrych arnynt a'u harchwilio).

**Colofn Nodweddion**: sy'n amlinellu nodweddion hygyrchedd.

Mae'r Statws Coch, Melyn, Gwyrdd (RAG) yn offeryn sy'n cyfleu statws yn gyflym ac effeithlon.

### Statws RAG

| | |
|---|---|
| Criteria wedi ei gyflawni'n llawn | (gwyrdd) |
| Criteria wedi ei gyflawni'n rhannol | (oren) |
| Criteria heb ei gyflawni | (coch) |

**Colofn Statws RAG:** i'w defnyddio gan sefydliad i arddangos ei asesiad os yw'r nodwedd benodol honno wedi ei chyflawni'n llawn, yn rhannol neu heb ei chyflawni.

**Colofn Tystiolaeth i gefnogi cryfderau:** i'w defnyddio i ddarparu'r rheswm am y statws dewisedig a sut y mae'r dystiolaeth wedi ei gadw.

**Colofn Diffygion:** i'w defnyddio i egluro'r meysydd ble nad yw'r sefydliad yn cyflawni'r criteria yn llawn.

**Colofn Camau Gweithredu Dynodedig:** i'w defnyddio i arddangos y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer dynodi diffygion.



| Nodweddion | Statws RAG | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau gweithredu dynodedig |
|---|---|---|---|---|
| I ba raddau all plant a'u teuluoedd gyrraedd y gofod a symud o'i amgylch?<br><br>Mae'r cyhoeddiad *Inclusion by Design*[13], yn cynnwys arweiniad defnyddiol ar sut i wneud cyfleusterau chwarae mor hygyrch â phosibl ar gyfer pob plentyn | | **Pethau i'w hystyried:**<br>• Mae'n hawdd mynd iddo o'r stryd neu o'r car<br>• Mae pawb yn defnyddio'r un mynedfeydd<br>• Mae mynediad da trwy'r gofod ac at y prif weithgareddau<br>• Mae digonedd o le fel y gall defnyddwyr fynd o dan yr offer<br>• Nid yw newidiadau mewn lefelau'n peri problem | | |
| I ba raddau y mae cyfleoedd i chwarae gydag eraill? | | **Pethau i'w hystyried:**<br>• Mae'n bosibl cynnwys y plant hyd yn oed os nad ydynt yn gallu gwneud yr hyn y mae eraill yn ei wneud bob amser<br>• Mae amrywiaeth o weithgareddau a nodweddion | | |
| I ba raddau mae'r gofod yn ateb anghenion ei amrywiol ddefnyddwyr? | | **Pethau i'w hystyried:**<br>• Mae yma amrywiaeth o weithgareddau a nodweddion (gweler nodweddion allweddol mannau chwarae da – tudalen 8) | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| I ba raddau mae'r gofod yn groesawus a deniadol? | | **Pethau i'w hystyried:**<br>• Mae amrywiaeth o gyfleoedd (gweler nodweddion allweddol mannau chwarae da – tudalen 8)<br>• Nid yw'r defnyddwyr a'u teuluoedd yn teimlo'n anghyfforddus nac yn chwithig ac nid ydynt yn teimlo bod sylw diangen arnynt<br>• Mae'r gofod yn cynnig cyfleoedd i archwilio, bod yn greadigol a chymdeithasu<br>• Mae mannau i ymgasglu a gorffwys | | |
| I ba raddau mae'r cyfleusterau'n cyflawni amrywiol anghenion cefnogaeth a ddynodwyd gan y proffil cymunedol? | | **Pethau i'w hystyried:**<br>• Gall defnyddwyr ddefnyddio'r toiled yn breifat<br>• Gall defnyddwyr ddefnyddio'r cyfleusterau newid yn breifat<br>• Mae mannau parcio hygyrch penodol ar gael<br>• Nid yw ceir yn cael eu parcio ar neu gyferbyn â chyrbiau isel<br>• Mae meinciau a chysgod ar gael | | |
| Pa gamau gweithredu sydd wedi eu cynllunio neu eu cyflawni i ddelio â diffygion? Beth gafodd ei gyflawni? | | | | |
| | | | | |

# Offeryn 5: Rhagweld cydraddoldeb a chynllunio dyluniad rhesymol

Mae'n bwysig cofio ystyried yr ystod gyflawn o gyflyrau a namau meddygol unigol, lluosog neu gyfuniad o'r rhain, allai fod yn berthnasol i blant, brodyr a chwiorydd, aelodau o'r teulu a phobl eraill allai fod yn eu hebrwng.

## Materion symudedd

- Dibynnu ar gadair olwyn
- Defnyddio cymhorthion symudedd
- Lefelau stamina isel
- Angen eu codi â llaw
- Defnydd cyfyngedig o'r breichiau neu'r dwylo.

**Pethau i'w hystyried**

Mae gallu cyfyngedig i symud yn rhwydd yn effeithio ar gyfranogiad ac annibyniaeth. Efallai y bydd y dyluniad yn galw ar i rywun gynorthwyo, hebrwng neu godi'r plentyn ar neu oddi ar nodweddion ac offer chwarae.

**Beth allai fod yn ddyluniad rhesymol?**

- Llwybr da i mewn i'r gofod o'r palmant, stryd neu faes parcio
- Hawdd i deithio i fannau ar gyfer cymdeithasu
- Arwynebau y gellir teithio arnynt 'ar olwynion' ac sy'n caniatáu mynediad i gymaint o strwythurau a nodweddion â phosibl, ond sy'n dal i gynnig amrywiaeth a hwyl
- Eitemau sy'n cefnogi rhyngweithio ac y gellir eu cyrraedd o uchder cadair olwyn, fel hambyrddau tywod neu ddŵr ac eitemau cerddorol
- Mae digonedd o le o dan strwythurau
- Mae mannau troi ar gyfer cadeiriau olwyn, yn enwedig mewn mannau ar gyfer cymdeithasu
- Mae eitemau, fel deunyddiau chwarae rhannau rhydd, i chwarae gyda nhw ar lefel y ddaear
- Mae cyfleoedd i'r rheini sy'n defnyddio cadair olwyn i ddod allan a chyrraedd eitemau fel tywod, dŵr, rhannau rhydd ac eitemau eraill sy'n hawdd eu trin a'u trafod ac sydd ddim yn galw am gryfder neu sgiliau echddygol manwl
- Mynediad at elfennau naturiol
- Mae twnelau y gellir gwthio person trwyddynt ar olwynion neu y gellir llywio trwyddynt yn gymharol annibynnol
- Mae carnau a chanllawiau da i afael ynddynt
- Cyfleusterau digonol ar gyfer cŵn cymorth neu dywys
- Ystyried nodweddion cyffyrddadwy
- Gall llwybrau cul trwy ardaloedd o laswellt hir ysgogi archwilio.

## Cyflyrau prosesu gwybyddol

- Oedi datblygiadol
- Anawsterau dysgu
- Ymddygiad heriol.

**Pethau i'w hystyried**

Bydd gan ambell blentyn fwy nag un diagnosis meddygol ac, o ganlyniad, bydd ganddo set o gyflyrau sy'n unigryw iddo. Mae'n bosibl y daw effeithiau corfforol neu emosiynol yn sgil anawsterau dysgu. Efallai y bydd plant sydd â chyflyrau gwybyddol angen mwy o oruchwyliaeth.

Bydd rhai namau'n effeithio ar y ddawn i sylwi ar berygl neu heriau annerbyniol. Caiff rhai plant eu denu at nodweddion sy'n bellach i ffwrdd ac mae'n bosibl y byddant yn rhedeg atynt. Efallai y bydd plant hŷn yn elwa o weithgareddau sydd wedi eu hanelu, yn draddodiadol, at blant iau ac efallai y byddant angen offer mwy o faint. Efallai y bydd eraill yn cael anhawster gyda sefyllfaoedd cymdeithasol ac y byddant, yn benodol, yn ei chael yn anodd dehongli sefyllfaoedd.

**Beth allai fod yn ddyluniad rhesymol?**

- Mae'r gofod wedi ei ddylunio fel ei bod yn hawdd deall sut i symud o amgylch a'i ddefnyddio
- Mae arwyddion, pan fo'u hangen, yn eglur ac yn defnyddio symbolau neu luniau
- Darparu dewis mewn gofodau – rhai sy'n brysur a llawn gweithgarwch a rhai tawelach
- Defnyddio ffiniau naturiol er mwyn helpu i atal pobl rhag crwydro i ffwrdd
- Ystyried ffensio rhai ardaloedd, yn enwedig os ydynt yn agos i beryglon
- Amrywiaeth dda o heriau corfforol, er mwyn i'r plant allu dynodi'r hyn sy'n teimlo'n iawn iddyn nhw
- Offer sy'n caniatáu gweithgarwch ochr-yn-ochr ar gyfer y rheini sydd angen mwy o oruchwyliaeth
- Gofodau sy'n caniatáu i blant fod 'ar eu pen eu hunain' heb unrhyw stigma cysylltiedig.

## Cyflyrau iechyd meddwl

- Anhwylderau gorbryder
- Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)
- Anhwylder sbectrwm awtistiaeth
- Iselder
- Anhwylder straen wedi trawma.

**Pethau i'w hystyried**

Bydd pob plentyn yn elwa o ymdeimlad o ddiogelwch a sefydlogrwydd, all godi o fannau chwarae ac adnoddau cymunedol da. Gall y rhain hwyluso ymddiriedaeth, parch, hunan-barch, ac annibyniaeth.

**Beth allai fod yn ddyluniad rhesymol?**

- Amrywiaeth a dewis o wahanol fathau o weithgarwch o fewn y gofod, fel mannau egnïol a thawel, mannau caeëdig a mannau agored
- Elfennau naturiol
- Gofodau sy'n caniatáu i blant fod 'ar eu pen eu hunain' heb unrhyw stigma cysylltiedig
- Amrywiaeth o ddeunyddiau chwarae rhannau rhydd i gefnogi archwilio, creu a myfyrio
- Nodweddion synhwyraidd, fel dŵr, tywod ac arwynebau rhydd.

## Namau ar y synhwyrau

- Byddar
- Trwm eich clyw
- Dall
- Rhannol ddall
- Dall a Byddar.

**Pethau i'w hystyried**

Mae namau ar y clyw, namau ar y golwg a namau amlsynnwyr yn effeithio ar y ddawn i gyfathrebu a symud o gwmpas. Yn aml, bydd cyfathrebu'n galw am lawer o ganolbwyntio ac ymdrech a gall fod yn flinedig.

Bydd plant sydd â nam ar y golwg yn elwa o giwiau i'w helpu i symud o amgylch y man chwarae a dod o hyd i rannau ohono y maent yn eu mwynhau. Mae'n bosibl y byddant hefyd yn fwy agored i beryglon allai fod yn amlwg i eraill ac efallai y bydd eraill yn defnyddio ffon (*cane*) neu gymhorthion eraill i symud o amgylch.

Mae'n bosibl y bydd plant sy'n fyddar neu sydd â nam ar y clyw yn cael anhawster cadw'u cydbwysedd weithiau a theimlo bod cymdeithasu'n heriol.

Dylid ystyried yr amgylchedd, fel goleuadau a sŵn cefndirol, er mwyn cynorthwyo pobl sydd â namau ar y golwg a'r clyw. Mae nodweddion synhwyrol yn bwysig, ond dylid osgoi cynnwys gormodedd o'r rhain – gall gormod o wahanol synau, arogleuon a delweddau beri dryswch.

**Beth allai fod yn ddyluniad rhesymol?**

- Plannu sy'n ysgogi'r synhwyrau arogli a chyffwrdd
- Cymysgedd o ddeunyddiau sy'n cynnig amrywiaeth o weadau a siapiau i'w cyffwrdd
- Ystyriaeth ofalus i arwynebau, fel nad ydynt yn creu gormodedd o sŵn
- Gall ymylon uchel a gweadau gwahanol helpu gyda chyfeirio pobl
- Ciwiau lliw cryf ble fo newid yn lefel y llawr, ar risiau a chanllawiau
- Defnyddio lliwiau a goleuadau cryfion
- Nodweddion, adnoddau a deunyddiau sy'n creu sŵn neu sy'n crynu ychydig
- Mannau tawelach wedi eu cysgodi rhag gormodedd o sŵn cefndirol
- Cyfle i archwilio elfennau fel tywod, dŵr a nodweddion naturiol eraill
- Nodweddion sy'n atal sŵn y gwynt a thraffig yn mynd heibio
- Gwybodaeth eglur a chryno ar unrhyw arwyddion
- Cyfleusterau digonol ar gyfer cŵn cymorth neu dywys.



# Offeryn 6: Ystyriaethau dylunio safle

| Nodwedd | Manteision | Heriau |
|---|---|---|
| **Arwyneb – rhydd** | • Ar gael yn rhwydd<br>• Edrych yn ddeniadol<br>• Edrych yn naturiol<br>• Gellir chwarae gyda hwn | • Mae'n galw am waith cynnal a chadw rheolaidd sy'n cynnwys cribinio ac ail-lenwi<br>• Pryderon ynghylch sbwriel, nodwyddau a baw anifeiliaid<br>• Symud trosto'n anodd i rai |
| **Arwyneb – synthetig** | • Sicrhau mynediad hygyrch i bobl sydd â thrafferthion symudedd<br>• Gellir ychwanegu lliw er mwyn cynnig ciwiau gweledol | • Gall fod yn gostus<br>• Gall fod yn anodd ei atgyweirio<br>• Gall greu amgylchedd 'sterilaidd' ac nid yw'n cynnig mynediad i faw, dŵr neu dywod |
| **Arwyneb – glaswellt** | • Cost effeithiol<br>• Edrych yn ddeniadol<br>• Edrych yn naturiol<br>• Gellir chwarae gyda'r gwair<br>• Gellir ei dirlunio i gynnig gwahanol ardaloedd a glaswellt gwahanol daldra | • Symud trosto'n anodd i rai |
| **Ffensys** | • Helpu i gefnogi plant sy'n crwydro i ffwrdd neu sy'n methu clywed pan fydd rhywun yn galw arnynt<br>• Helpu oedolion i deimlo'n fwy cyfforddus os oes peryglon (dŵr neu ffyrdd) gerllaw | • Cyfyngu ar ble y gall chwarae ddigwydd<br>• Gall cloeon plant ar giatiau fod yn anodd i'w cyrraedd<br>• Gall cloeon plant ar giatiau fod yn gostus i'w trwsio<br>• Gallai ffensys gael eu defnyddio fel rheswm i beidio goruchwylio plant |

| | | |
|---|---|---|
| **Rampiau** | • Cynnig her i rai plant<br>• Darparu llwybr teithio hygyrch<br>• Gallant fod yn eitem chwarae<br>• Galluogi plant i gyrraedd uchder<br>• Galluogi rhai plant i edrych allan dros y gofod | • Costau sylweddol<br>• Dylent fod â nodweddion diddorol ar eu pen<br>• Mae'n bosibl y byddant angen nodweddion diogelwch, fel canllawiau sy'n cynnwys gwead gwahanol<br>• Gallai fod yn anodd i oedolion gyrraedd plant sydd angen cymorth |
| **Darparu deunyddiau chwarae rhannau rhydd** | • Rhad i'w darparu<br>• Darparu'r adnoddau y bydd plant eu hangen i ymestyn eu chwarae<br>• Gellir trin a thrafod amgylcheddau, mae pethau'n symud a gellir eu symud<br>• Darparu cyfleoedd i blant chwarae ac archwilio<br>• Annog cydweithio<br>• Darparu amrywiaeth o weadau | • Bydd angen ystyried cyfleusterau storio<br>• Bydd angen eu gwirio i weld os ydynt yn addas neu wedi eu difrodi<br>• Perygl iddynt gael eu symud o'r golwg<br>• Efallai y bydd yn annog defnyddwyr i adael neu dipio sbwriel diangen |
| **Nodweddion naturiol a mynediad i'r elfennau** | • Mae chwarae gyda'r elfennau'n cyfrannu at wybodaeth plant am y byd o'u hamgylch a'u gwerthfawrogiad ohono<br>• Mae nodweddion fel bonion coed, twmpathau glaswelltog, tywod, graean a phlannu naturiol yn newid yn naturiol gyda'r tymhorau er mwyn darparu gwahanol brofiadau chwarae trwy'r flwyddyn | • Materion cynnal a chadw<br>• Mae'n bosibl y byddant yn galw am fwy o oruchwyliaeth |
| **Nodweddion synhwyraidd** | • Mae tywod a dŵr yn hwyl a gellir eu trin a'u trafod<br>• Mae plannu'n darparu arogleuon, lliwiau a gweadau | • Mae angen ystyried y lleoliad er mwyn i'r nifer mwyaf posibl o blant gael mynediad iddo<br>• Materion draenio a glanhau |

# Offeryn 7: Cynllunio ar gyfer dylunio rhesymol wrth adfywio mannau chwarae

Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i ystyried hygyrchedd pan fo mannau chwarae sy'n bodoli eisoes yn cael eu newid neu eu huwchraddio.

Mae pethau i'w hystyried yn cynnwys:

- Asesu a gwella'r gwerth chwarae cyffredinol trwy ddarparu elfennau naturiol neu ddeunyddiau chwarae rhannau rhydd y gall y nifer fwyaf o blant gael mynediad hawdd iddynt
- Cynnwys a gwella llwybrau ac, yn benodol, darparu mynediad i weithgareddau poblogaidd
- Darparu cyfleoedd ar gyfer cymdeithasu ac i blant chwarae gyda'i gilydd
- Cynnwys ac adeiladu cysgod
- Edrych ar y proffil cymunedol ac asesu'r angen am nodweddion fel toiledau a therfynau
- Asesu'r gwerth y mae'r defnyddwyr presennol yn ei roi ar nodweddion ac eitemau chwarae. Mae'n bosibl y caiff rhai nodweddion eu cadw hyd yn oed os nad oes modd eu gwneud yn gwbl hygyrch
- Penderfynu os yw'r addasiad yn cyflawni nifer o nodau fel cyfranogi, her a gwerth chwarae.

Mae ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu os yw nodwedd dylunio'n rhesymol, yn cynnwys:

- Os byddai cymryd unrhyw gam penodol yn effeithiol wrth atal yr anfantais sylweddol
- Ymarferoldeb y cam gweithredu
- Costau ariannol a chostau eraill gwneud yr addasiad a maint unrhyw darfu a achosir
- Maint yr adnoddau ariannol, ac adnoddau eraill, fydd angen
- Argaeledd cymorth ariannol, neu gymorth ymarferol, i helpu, er enghraifft ariannu partneriaeth
- Math a maint y darparwr
- Effaith posibl ar yr ystod o ddefnyddwyr.

| Addasiad sy'n cael ei ystyried | Eglurhad / sail resymegol | Penderfyniad |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Offeryn 8: Cynnal dadansoddiad opsiynau

Yn dilyn asesu ac adolygu mannau sy'n bodoli eisoes, gall defnyddio templed dadansoddi opsiynau helpu darparwyr i ddewis y penderfyniad, y model a'r arddull gorau i'w gymryd o ran chwalu rhwystrau a gwneud mannau chwarae'n fwy hygyrch.

Gellir rhestru'r holl fanteision ac anfanteision ar gyfer pob opsiwn – gan sgorio 1 pwynt ar gyfer pob mantais a -1 ar gyfer pob anfantais (nodwyd rhai esiamplau'n barod).

| **Opsiwn 1: Creu un man chwarae mawr hygyrch ac yna gwella hygyrchedd a gwerth rhai eraill** | | | |
|---|---|---|---|
| Pethau y gellid eu hystyried: | Manteision (+1) | Anfanteision (-1) | Cyfanswm |
| • Mae cyllideb wedi ei chlustnodi ar gyfer man chwarae graddfa fawr<br>• Mae tystiolaeth y bydd teuluoedd yn teithio i'r man chwarae<br>• Mae'n hawdd cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau cymorth | | | |
| **Opsiwn 2: Mynd i'r afael â materion o bwys ar draws yr holl fannau chwarae** | | | |
| Pethau y gellid eu hystyried: | Manteision (+1) | Anfanteision (-1) | Cyfanswm |
| • Gwella llwybrau teithio hygyrch i'r mwyafrif o fannau chwarae<br>• Ychwanegu mwy o elfennau naturiol<br>• Ychwanegu darn newydd o offer | | | |
| **Opsiwn 3: Dynodi ble mae'r boblogaeth o blant anabl yn byw ac anelu i wella eu mannau lleol allweddol** | | | |
| Pethau y gellid eu hystyried: | Manteision (+1) | Anfanteision (-1) | Cyfanswm |
| • Mae'r data poblogaeth ar gael<br>• Mae mannau chwarae gerllaw eisoes<br>• Mae plant yn gwneud defnydd o'r safle eisoes | | | |

| Opsiwn 4: Cychwyn prosiect gwaith chwarae peripatetig / allgymorth (ceidwaid chwarae) | | | |
|---|---|---|---|
| Pethau y gellid eu hystyried: | Manteision (+1) | Anfanteision (-1) | Cyfanswm |
| • Mae mudiad lleol neu adran all ddarparu gweithwyr chwarae medrus<br>• Byddai rhieni'n elwa o gael prosiect gwaith chwarae i'w helpu i gefnogi chwarae eu plant<br>• Byddai plant yn elwa o bresenoldeb oedolion sensitif a medrus | | | |

| Opsiwn 5: Dynodi partneriaid (fel ysgolion) sydd â thir hygyrch eisoes a thrafod gyda'r rhain i agor eu meysydd chwarae'r tu allan i oriau dysgu | | | |
|---|---|---|---|
| Pethau y gellid eu hystyried: | Manteision (+1) | Anfanteision (-1) | Cyfanswm |
| • Nifer y plant sy'n mynychu'r ysgol ac sy'n byw gerllaw<br>• Y cyfleusterau cymorth eraill sydd ar gael i deuluoedd fydd yn teithio i'r safle<br>• Ymarferoldeb cynnwys maes chwarae'r ysgol ym mhrosesau cynllunio, cynnal a chadw ac archwilio'r Cyngor | | | |

## Adnodd defnyddiol

*Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu* – pecyn cymorth sydd wedi ei ddylunio i gynorthwyo penaethiaid, llywodraethwyr a mudiadau lleol i weithio gyda'i gilydd i ystyried sicrhau bod tiroedd ysgol ar gael i blant lleol y tu allan i oriau addysgu.

Mae wedi ei ddylunio i ddarparu gwybodaeth eglur a chryno ar gyfer cymunedau ysgolion a'u partneriaid, er mwyn asesu ymarferoldeb gwneud yn siŵr bod tiroedd ysgol ar gael ar gyfer chwarae plant y tu allan i oriau addysgu.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn edrych ar yr amrywiol faterion fydd angen eu hystyried. Mae'n cynnwys dyfyniadau gan benaethiaid sy'n seiliedig ar drafodaethau fu'n rhan o ddatblygiad y pecyn cymorth ac astudiaethau achos sy'n arddangos amrywiol fodelau.

Mae'r pecyn cymorth ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar: www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthysgolion

# Offeryn 9: Gwerth chwarae – gwybodaeth i rieni

Mae ardaloedd chwarae plant yn llawer mwy na dim ond darparu siglen, llithren neu ffrâm ddringo. Er enghraifft, gall tirlunio, plannu a nodweddion naturiol gynnig llawer iawn o werth chwarae, a mwy na darn o offer ar adegau. Yn aml bydd cyfuniad o dirlunio da, mynediad i nodweddion synhwyraidd (fel tywod, dŵr a sŵn) yn cyfannu ei gilydd o fewn y dyluniad cyffredinol ar gyfer ardal.

Gall y nodweddion hyn greu ymdeimlad da o le, caniatáu cyfle i blant gael mynediad i ystod o brofiadau chwarae, ac mae'r rhain o fudd i bob plentyn, eu teuluoedd a'r cymunedau ehangach. Dylai offer fod yn rhan o ddyluniad cyffredinol yn hytrach na'r unig nodwedd neu ffocws mewn man chwarae.

Mae mannau chwarae llwyddiannus yn cynnig profiadau chwarae pleserus i blant a phobl ifanc anabl, ac i rai sydd ddim yn anabl, tra'n derbyn na all pob elfen o'r gofod chwarae fod yn hygyrch i bawb. Gall plant sydd â gwahanol alluoedd chwarae gyda'i gilydd mewn mannau chwarae sydd wedi eu dylunio'n dda, a dylai rhieni a gofalwyr sydd yn anabl allu cael mynediad i fannau chwarae os ydynt i hebrwng eu plant.

Er bod llawer o ddarparwyr chwarae'n canolbwyntio ar offer sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, mae'n bwysig sylweddoli efallai y bydd hyn ond yn ateb anghenion grŵp penodol o blant. Efallai y byddai offer anghyfarwyddol, y gellir ei ddefnyddio'n hyblyg – fel siglen 'nyth' – fod o ddiddordeb i nifer fawr o blant sydd â gwahanol anghenion a galluoedd.

**Pethau i gadw llygad amdanynt wrth ymweld â mannau chwarae**

- Cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, fel ardaloedd eistedd a mannau eraill sydd â phosibiliadau penagored (plociau, boncyffion, waliau, nodweddion gwaith celf):
  - Creu ymdeimlad o berthyn
  - Annog cyfathrebu ar gyfer pob plentyn
  - Cefnogi agwedd oddefgar a chydweithredol
  - Darparu cyfleoedd cyfranogi ar gyfer plant sy'n methu cymryd rhan mewn gweithgarwch mwy corfforol
- Cyfleoedd i chwarae'n gydweithredol
  - Tywod a dŵr ar lefel uwch
  - Deunyddiau chwarae rhannau rhydd i'w symud ac i greu
  - Offer all ddal grwpiau o blant
- Cyfleoedd ar gyfer profiadau synhwyraidd
  - Cysgod a goleuadau
  - Sŵn a cherddoriaeth dawel
  - Mannau tawel.

# Offeryn 10: Hyrwyddo'r man chwarae

Bydd gwybodaeth sy'n hawdd ei ddeall am fannau chwarae penodol yn helpu plant a'u teuluoedd i wneud y defnydd gorau o'r hyn sydd ar gael.

Gallai deunyddiau a gwybodaeth marchnata gynnwys:

- Cyfeiriad a map o'r lleoliad
- Disgrifiad o'r safle a'i brif nodweddion
- Math o safle – cymdogaeth neu gyrchfan (gweler y diffiniadau defnyddiol ar dudalen 10)
- Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol
- Cyfleusterau parcio
- Disgrifiad o gyfleusterau cymorth
- Gwybodaeth am ffensys neu derfynau eraill
- Cyfleusterau cyfagos.

Mae potensial hefyd i gynnwys gwybodaeth gyffredinol am chwarae a gwerth chwarae er mwyn cynorthwyo rhieni i feddwl yn fwy creadigol am yr hyn y gellid ei weld mewn man chwarae.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol atgoffa rhieni a gofalwyr am yr amrywiol ffyrdd y gall plant elwa o fan chwarae hygyrch sy'n wahanol i'r gweithgareddau traddodiadol o siglo, llithro a dringo. Mae'n bosibl y bydd darparu gwybodaeth am fuddiannau eang chwarae yn helpu rhieni i ystyried y man chwarae mewn modd mwy realistig a holistig.

Trwy chwarae, bydd plant yn:

- Cael hwyl
- Datrys problemau
- Rheoli a meistroli heriau
- Archwilio, creu a defnyddio'u dychymyg
- Ennill annibyniaeth yn raddol
- Rhyngweithio'n gymdeithasol
- Yn gorfforol egnïol
- Cael mynediad i natur a deunyddiau naturiol.



# Offeryn 11: Polisi rheoli risg

*Seiliedig ar Fframwaith Rheoli Risg Conwy a Wrecsam: Polisi, Trefn Arferol ac Asesu Risg-Budd Dynamig*[14]

Gellir addasu'r polisi rheoli risg isod i ateb ein anghenion ein hunain. Mae'r polisi'n amlinellu'r agwedd risg-budd tuag at reoli risg ac mae'n caniatáu cynnwys gweithdrefnau ein hunain, amlder archwiliadau a rhaglen gynnal a chadw arferol. Mae meddu ar bolisi rheoli risg yn mynd ymhellach na'r gofynion ar gyfer cynnal asesiadau risg, gan gynnig fframwaith cadarn i'r modd y bydd sefydliadau'n rheoli risgiau dros amser ac yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i ddiweddaru a gwella asesiadau risg ymarferol (ar bapur).

## Polisi rheoli risg

Mae'r polisi hwn wedi ei ddatblygu er mwyn darparu agwedd gydlynol, gyson a chytbwys tuag at reoli risg yn ________________________ ac er mwyn sicrhau gwell eglurder dealltwriaeth ynghylch y mater hwn.

Trwy hyn, mae'r polisi'n anelu i herio rhywfaint ar natur ofn risg ein cymdeithas heddiw, all gyfyngu ar brofiadau chwarae plant. Caiff y polisi ei gefnogi gan y Datganiad Lefel Uchel a gyhoeddwyd gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Play Safety Forum. Mae'r Datganiad Lefel Uchel – *Chwarae a Hamdden Plant: hyrwyddo agwedd gytbwys* yn egluro:

- Bod chwarae'n bwysig i les a datblygiad plant
- Wrth gynllunio a darparu cyfleoedd chwarae, nad dileu risg yw'r nod, ond yn hytrach y dylid pwyso a mesur y risgiau a'r buddiannau
- Y dylai'r rheini sy'n darparu cyfleoedd chwarae ganolbwyntio ar reoli gwir risg, tra'n sicrhau neu'n cynyddu'r buddiannau – ac nid canolbwyntio ar y gwaith papur
- Y bydd damweiniau a chamgymeriadau'n digwydd yn ystod chwarae – ond bod ofn cael eich dwyn i gyfraith a chael eich erlyn bellach y tu hwnt i bob rheswm.

## Systemau rheoli risg

Defnyddir y term rheoli risg yn y polisi hwn i gyfeirio at bob elfen sydd ynghlwm â'r broses o reoli risg allai, ac a ddylai, gynnwys llawer mwy nag asesiadau risg ar bapur yn unig. Ble fo'r holl elfennau hyn yn cael eu cefnogi'n briodol, bydd yn bosibl datblygu systemau rheoli risg mwy cadarn a mwy deallus.

## Darparu ar gyfer risg a her mewn darpariaeth chwarae

Mae ____________________________________ yn cydnabod bod plentyndod yn llawn profiadau newydd fydd, o reidrwydd, yn cynnwys rhyw elfen o risg neu fentro, boed yn gorfforol neu'n emosiynol. Mae plentyndod yn broses barhaus o brofi a methu, gyda'r posibilrwydd o lwyddo, ond yn ogystal â damweiniau anochel. Fyddai plant fyth yn dysgu sut i gerdded, dringo'r grisiau neu fynd ar gefn beic oni bai eu bod ag ysgogiad cryf i ymateb i heriau sy'n cynnwys risg o anafiadau. Mae gennym ddyletswydd gofal i geisio amddiffyn unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'n cyfleusterau rhag effeithiau niweidiol, hir dymor posibl, wynebu niwed corfforol ac emosiynol difrifol ac afresymol.

Fodd bynnag, wrth wneud hyn ddylen ni ddim ei anwybyddu, neu ei geisio ar draul, galluogi plant i gyfranogi'n weithredol yn eu datblygiad personol eu hunain o iechyd, lles a gwytnwch, o ganlyniad i gymryd rhan mewn sefyllfaoedd â chanlyniadau ansicr.

## Asesu risg-budd

Caiff penderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n rhesymol, a'r dymuniad i blant gyfranogi a chyfrannu, eu llunio gan ddefnyddio agwedd risg-budd. Mae'r broses yma'n cynnwys ystyried y buddiannau posibl a gyflwynir gan gyfle ynghyd ag unrhyw ganlyniadau negyddol posibl, ac yna llunio barn os yw'r posibilrwydd o anaf yn gymesur â'r buddiannau. Hynny yw, a yw'r buddiannau posibl yn cyfiawnhau caniatáu i berygl anaf sefyll?

At ddibenion asesiadau risg-budd, gall buddiannau fod yn rhai corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu amgylcheddol (ac mae'n debyg y byddant yn gyfuniad o'r rhain i gyd). Gellir dynodi risg anaf trwy ystyried tebygolrwydd gweld anaf posibl yn digwydd ynghyd â difrifoldeb posibl yr anaf hwnnw.

## Camau rheoli rhesymol

Yn ystod y broses risg-budd mae'n bosibl y bydd angen dynodi camau rheoli er mwyn lleihau'r risg o anafiadau i lefel dderbyniol. Fodd bynnag, bydd y camau rheoli, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael eu gweithredu, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael. Bydd rhaid cyfiawnhau cost unrhyw gamau rheoli posibl trwy sicrhau eu bod yn gymesur â'r perygl anaf cysylltiedig.

Cyn cyflwyno unrhyw gamau rheoli, dylid ystyried hefyd unrhyw effeithiau negyddol posibl allai godi'n sgîl ymyrryd yn y modd yma. Er enghraifft, mae'n bwysig na chaiff angen plant i ddefnyddio eu hamgylchedd mewn ffyrdd newydd ac annisgwyl eu cyfyngu mewn ymgais i ddarparu amddiffyniad llwyr rhag anafiadau.

## Pwyntiau allweddol:

- Mae gwerth cynhenid i blant o brofi ansicrwydd a her personol trwy eu chwarae.
- Mae angen i blant deimlo'n rhydd i brofi risg a her o'u dewis eu hunain. Fydd dim ond modd iddyn nhw wneud hyn os y byddwn yn caniatáu rhyw elfen o ansicrwydd i aros.
- Mae'r ddarpariaeth chwarae y byddwn yn ei greu'n anelu i gefnogi plant i brofi lefelau rhesymol o risg drostynt eu hunain.
- Mae angen taro cydbwysedd rhwng sicrhau lefelau priodol o amddiffyn, a gwarchod lefelau rhesymol o ansicrwydd.
- Rydym yn anelu i reoli risg fel bod, pryd bynnag y bo'n rhesymol bosibl, y risg o anaf y bydd plant yn ei wynebu'n gymesur â'r buddiannau posibl sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa.
- Bydd camau rheoli'n rhesymol ac yn realistig, tra'n sicrhau y caiff risgiau diangen eu lleihau.
- Mae rheoli risg yn ymgorffori nifer o wahanol elfennau sy'n gweithio gyda'i gilydd i lunio cylchdro parhaus, fydd yn gwella ein arfer.
- Mae plant yn gwbl abl i reoli rhywfaint o risg drostynt eu hunain a bydd eu gallu'n datblygu wrth i'w profiad gynyddu.



# Offeryn 12: Ystyriaethau allweddol ar gyfer ardaloedd chwarae newydd

*Cynhyrchwyd gan Dinas a Sir Abertawe ac fe'i ddatblygwyd gan Grwpiau Mannau Chwarae a Mynediad i Chwarae y Rhwydwaith Chwarae*

## Canllaw ar gyfer man chwarae integredig

Mae'r canllaw canlynol wedi ei gynhyrchu i roi arweiniad i ddarparwyr offer chwarae ac awdurdodau lleol i ystyried anghenion pob plentyn a pherson ifanc wrth ddatblygu mannau chwarae newydd neu ddiweddaru darpariaeth sy'n bodoli eisoes.

Nid yw'n bosibl cael maes chwarae sy'n hygyrch 100% gan fod gan blant a phobl ifanc anabl amrywiaeth eang o anghenion a gall diwallu anghenion un grŵp o blant olygu bod y maes chwarae'n anhygyrch i eraill.

Er mwyn sicrhau bod mannau chwarae yn Ninas a Sir Abertawe mor gynhwysol a hygyrch â phosibl, datblygwyd y canllaw arfer da yma gan Dîm Chwarae Abertawe mewn ymgynghoriad â Grŵp Mynediad i Chwarae Abertawe, rhieni / gofalwyr plant anabl, pobl ifanc a phobl ifanc anabl.

Mae'r argymhellion a wneir yn gymedrol o ran cost a gellir eu hystyried yn rhesymol wrth gyflawni briff dylunio, ond byddwn yn croesawu cynnwys syniadau dyfeisgar.

## Offer

**Themâu allweddol – generig**

- Rowndabowt sy'n wastad â'r llawr gyda sedd a lle ar gyfer cadair olwyn neu fygi plentyn.
- Llithren lled dwbl – digon llydan ar gyfer dau berson er enghraifft rhiant / gofalwr a phlentyn. Mynediad amrywiol i ganiatáu ar gyfer gwahanol anghenion a gallu.
- Siglenni i gynnwys o leiaf ddwy siglen o fath basged, ble bynnag y bo modd, yn ogystal â dewis o fathau eraill.
- Profiadau synhwyraidd ar lefel isel a lefel uchel – defnyddiwch eich dychymyg er enghraifft cyffyrddadwy, clywedol a gweledol.
- Profiadau siglo, troelli a bownsio i weddu i blant o wahanol faint a gallu.
- Profiadau dringo i gynnwys profiadau ar lefel isel nid dim ond rhai sy'n anelu'n uchel. Cynnwys profiadau aml-lefel.

## Mynediad

**Themâu allweddol – generig**

- Rhaid i arwynebau fod yn ymarferol ar gyfer cadeiriau olwyn a bygis.
- Gatiau'n ddigon llydan ac ymarferol ar gyfer cadeiriau olwyn a bygis.
- Ffensys i'w codi dim ond pan fo perygl sy'n bodoli eisoes gerllaw er enghraifft maes parcio, ffordd brysur, dŵr dwfn neu lethr serth.
- Seddi i bawb i fod gerllaw'r offer chwarae, rhai gyda byrddau.
- Gofod digonol o amgylch, a mynediad rhwydd i'r offer.

## Materion i'r awdurdod lleol eu hystyried

- Ar gyfer 'parciau cyrchfan', offer anabledd arbenigol i'w ystyried mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Mynediad i Chwarae
- Mannau parcio anabl gerllaw
- Wardeniaid parc
- Cymysgedd amrywiol o fannau chwarae sydd gydag a heb ffiniau – i gynnig amrywiaeth – all fod yn greadigol e.e. ffiniau lefel isel neu ffiniau y gellir eu defnyddio ar gyfer balansio
- Arwyddion – parch er enghraifft rhoi troi i bobl eraill
- Trafnidiaeth gyhoeddus gerllaw
- Cysylltiad gyda grwpiau mynediad lleol o ran parcio a materion mynediad eraill
- Toiledau a chyfleusterau newid – o leiaf gerllaw
- Ardaloedd sydd wedi eu cysgodi rhag yr haul a'r glaw.

# Cyfeiriadau


[1] Lester, S. a Russell, W. (2008) *Play for a Change – Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives*. Llundain: National Children's Bureau ar gyfer Play England.

[2] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2013) *Sylw Cyffredinol Rhif 17 ar hawl y plentyn i orffwys, hamdden, chwarae, gweithgareddau hamdden, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau (erthygl. 31)*. Genefa: Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn.

[3] Llysgenhadon Ifanc, prosiect Hawl i Gael Hwyl, Mencap Cymru.

[4] Winckler, V. (2011) *Fair play for disabled children and young people in Wales*. Glyn Ebwy: Sefydliad Bevan.

[5] John, A. a Wheway, R. (2004) *Can Play Will Play. Disabled children and access to outdoor playgrounds*. Llundain: National Playing Fields Association.

[6] SkillsActive (2010) *SkillsActive UK Play and Playwork Education and Skills Strategy 2011-2016*. Llundain: SkillsActive.

[7] *Sylw Cyffredinol Rhif 17.*

[8] Disability Wales (dim dyddiad) *Cyflwyniad i'r Model Anabledd Cymdeithasol*.

[9] Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2012) *Chwarae a Hamdden Plant – Hyrwyddo agwedd gytbwys tuag at risg*.

[10] Ball, D., Gill, T. a Spiegal, B. (2013) *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*. Llundain: National Children's Bureau ar gyfer Play England ar ran y Play Safety Forum.

[11] *Fair play for disabled children and young people in Wales.*

[12] Llysgenhadon Ifanc, Prosiect Hawl i Gael Hwyl, Mencap Cymru.

[13] Goodridge, C. (2008) *Inclusion by Design – a guide to creating accessible play and childcare environments*. Llundain: KIDS.

[14] Grŵp Rheoli Risg Conwy a Wrecsam (2009) *Fframwaith Rheoli Risg Conwy a Wrecsam: Polisi, Trefn Arferol ac Asesu Risg-Bud Dynamig*.




# Atodiad 1: Polisïau a deddfwriaethau sy'n sylfaen i'r pecyn cymorth

## Polisïau

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn cynnwys 54 erthygl sy'n diffinio sut y mae gan blant a phobl ifanc hawl i gael eu trin a sut y dylai llywodraethau ar draws y byd fonitro CCUHP. Mae tair erthygl benodol sy'n ddefnyddiol wrth ystyried mannau chwarae cynhwysol a hygyrch.

**Erthygl 2** (peidio â gwahaniaethu)
Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn, waeth beth fo'i hil, crefydd neu allu, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud, waeth pa fath o deulu y mae'n rhan ohono. 'Does dim ots ble mae'r plentyn yn byw, pa iaith y mae'n ei siarad, beth mae ei rieni'n ei wneud, os yw'r plentyn yn fachgen neu'n ferch, beth bynnag yw ei ddiwylliant, os oes ganddo anabledd neu os yw'n dlawd neu'n gyfoethog. Ni ddylai'r un plentyn gael ei drin yn annheg ar unrhyw sail.

**Erthygl 23** (anabledd)
*'Dylai unrhyw blentyn sydd ag unrhyw fath o anabledd dderbyn gofal arbennig a chefnogaeth er mwyn iddo allu byw bywyd llawn ac annibynnol.'*

Mae Sylw Cyffredinol Rhif 9 y Cenhedloedd Unedig ar Erthygl 23 yn datgan:
*'Mae chwarae wedi ei gydnabod fel y ffynhonnell orau ar gyfer dysgu amrywiol sgiliau, yn cynnwys sgiliau cymdeithasol. Byddwn yn sicrhau cynhwysiant llawn plant ag anableddau mewn cymdeithas pan roddir cyfle, lle ac amser i blant chwarae gyda'i gilydd (plant sydd ag anableddau a heb anableddau).'*

**Erthygl 31** (chwarae)
*'Mae gan bob plentyn hawl i orffwys a hamdden, i gyfranogi mewn chwarae a gweithgareddau hamdden sy'n briodol i'w oedran ac i gyfranogi'n rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau.'*

Mae Sylw Cyffredinol Rhif 17 ar Erthygl 31 yn datgan:
*'Mae rhwystrau lluosog yn atal plant ag anableddau rhag cael mynediad i'r hawliau y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 31, yn cynnwys cael eu heithrio o fannau anffurfiol a chymdeithasol ble caiff cyfeillgarwch ei ffurfio a ble gall chwarae a hamdden ddigwydd; ynysu yn y cartref; agweddau diwylliannol a stereoteipiau negyddol sy'n gas tuag at ac sy'n gwrthod plant sydd ag anableddau; anhygyrchedd ffisegol, ymysg eraill, mannau cyhoeddus, parciau, meysydd chwarae ac offer, sinemâu, theatrau, neuaddau cyngerdd, canolfannau a chyfleusterau chwaraeon; polisïau sy'n eu heithrio o ganolfannau diwylliannol neu chwaraeon ar sail diogelwch; rhwystrau cyfathrebu a methiant i ddarparu technoleg addasol a dehongliadol; diffyg trafnidiaeth hygyrch.*

*Mae angen buddsoddi mewn dylunio cynhwysol o ran cyfleusterau, adeiladau, offer a gwasanaethau chwarae, hamdden, diwylliannol, celfyddydol a chwaraeon, sy'n gyson gyda'r rheidrwydd i hybu cynhwysiant a gwarchod plant sydd ag anableddau rhag dioddef gwahaniaethu. Dylai gwladwriaethau gydweithio gyda mudiadau anllywodraethol i sicrhau y defnyddir dylunio cynhwysol wrth gynllunio a chynhyrchu pob deunydd a chanolfan, er enghraifft, mynedfeydd hygyrch ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a dylunio cynhwysol ar gyfer amgylcheddau chwarae, yn cynnwys rhai mewn ysgolion.'*

Mae Sylw Cyffredinol yn ddatganiad swyddogol sy'n ehangu ar ystyr elfen o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n ymddangos fel ei bod angen pwyslais neu ddehongliad pellach.

Bwriad Sylw Cyffredinol yw cynyddu pwysigrwydd Erthygl a chynyddu atebolrwydd ymysg gwledydd sydd wedi arwyddo'r Confensiwn.

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

**Erthygl 30**

Mae'n sicrhau y bydd plant ag anableddau yn cael mynediad sy'n gyfartal â phlant eraill i gyfranogi mewn chwarae, adloniant, a gweithgareddau chwaraeon a hamdden.

Mae angen mesurau rhagweithiol i chwalu'r rhwystrau a hybu hygyrchedd i, ac argaeledd cyfleoedd cynhwysol i gyfranogi yn yr holl weithgareddau hyn.

## Deddfwriaethau

### Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol asesu a sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn eu hardal. Mae *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae* yn datgan y dylai awdurdodau lleol anelu i gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac sy'n annog pob plentyn i chwarae a chwrdd â'i gilydd, os hoffen nhw.

Dylai awdurdodau lleol ddynodi rhwystrau y gallai rhai plant eu hwynebu wrth geisio cymryd rhan yn yr amrywiol gyfleoedd chwarae yn eu hardal. Gallai hyn fod o ganlyniad i anabledd neu nam, gwerthoedd diwylliannol cymuned y plentyn, neu ffactorau amgylcheddol neu agweddol eraill. Dylai'r asesiad digonolrwydd chwarae nodi i ba raddau y mae:

- Cyfleoedd chwarae'n hygyrch i ac yn gynhwysol o blant anabl a gallent gynnwys cefnogaeth i gael mynediad i gyfleoedd chwarae
- Darpariaeth arbenigol ar gael ar gyfer plant anabl os y dynodwyd bod angen amlwg am hyn
- Cynllunio cymunedol yn cwmpasu gofynion plant anabl i gael mynediad i gyfleoedd chwarae.

### Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu ym mhob agwedd o gymdeithas. Mae'n disodli deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol gydag un Ddeddf, gan wneud y gyfraith yn haws i'w deall ac atgyfnerthu gwarchodaeth mewn rhai sefyllfaoedd. Mae'n amlinellu'r gwahanol ffyrdd y mae'n anghyfreithlon i drin person.

Yma, byddwn yn canolbwyntio ar bobl anabl, sy'n cynnwys plant anabl.

**Diffiniad cyfreithiol anabledd**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar allu person i wneud gweithgareddau bob dydd, '*normal*'.

- Mae 'sylweddol' yn golygu mwy na rhywbeth bychan neu ddibwys. Er enghraifft, mae'n cymryd llawer hirach na'r arfer i gwblhau tasg ddyddiol fel gwisgo amdanoch.
- Mae 'hirdymor' yn golygu 12 mis neu fwy. Er enghraifft, anhwylder anadlu sy'n datblygu o ganlyniad i haint ar yr ysgyfaint.

**Addasiadau rhesymol**

Mae'r ddeddf cydraddoldeb yn cydnabod y gall sicrhau cyfartaledd ar gyfer pobl anabl olygu dileu rhwystrau ffisegol a / neu ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer pobl anabl. Dyma'r ddyletswydd i ragweld a gwneud addasiadau rhesymol. Nod y ddyletswydd yw sicrhau, cyn belled â bo'n rhesymol, bod pobl anabl a phobl heb anabledd yn cael yr un mynediad i wasanaethau a chyfleusterau.

Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn un rhagflaenol – mae'n mynnu y dylai darparwyr feddwl ymlaen llaw a gwneud addasiadau fel y gall pobl anabl gyfranogi'n y man chwarae cyflawn ac osgoi unrhyw anfanteision allai ddigwydd fel arall.

Ni ddylai darparwyr mannau chwarae aros tan i berson anabl, neu riant neu ofalwr, gysylltu â nhw cyn ystyried sut i gyflawni'r ddyletswydd.

Dylid cynllunio ymlaen llaw ar ei gyfer a rhagweld anghenion ymwelwyr anabl â mannau chwarae a'r addasiadau allai fod yn angenrheidiol.

Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn datgan y dylai darparwyr ragweld anghenion pob darpar-ddefnyddiwr, ond mae'n cynnwys gofyniad i feddwl am a chymryd camau rhesymol a chymesur i oresgyn rhwystrau allai atal pobl sydd â gwahanol anableddau.

**Dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus**
Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yn gymwys i gyrff cyhoeddus a'r rheini sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Mae'n cefnogi llunio penderfyniadau doeth trwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried sut caiff gwahanol bobl eu heffeithio gan eu gweithgarwch. Mae hefyd yn eu helpu i drosglwyddo polisïau a gwasanaethau sy'n effeithlon ac effeithiol, sy'n hygyrch i bawb, ac sy'n ateb gofynion gwahanol bobl.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn mynnu y dylai cyrff cyhoeddus ystyried yr angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- Hybu cydraddoldeb cyfle rhwng pobl sy'n cael eu diogelu gan y ddeddf cydraddoldeb a phobl sydd ddim
- Meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (er enghraifft hil, anabledd neu grefydd) a phobl sydd ddim yn ei rhannu.

Mae rhoi sylw dyledus yn golygu meddwl, yn gwbl ymwybodol, am dri nod y ddyletswydd cydraddoldeb fel rhan o'r broses llunio penderfyniadau, yn cynnwys darparu system rheoli iechyd a diogelwch cadarn.

**Sut y gellir gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl**
Mathau o wahaniaethu:

- **Gwahaniaethu uniongyrchol** – trin person anabl yn llai ffafriol nac eraill
- **Gwahaniaethu anuniongyrchol** – rhoi rheolau neu drefniadau'n eu lle sy'n gymwys i bawb, ond sy'n gosod person anabl o dan anfantais annheg
- **Aflonyddu** – ymddygiad nas dymunir sy'n gysylltiedig â pherson anabl sy'n ymyrryd ar eu hurddas neu sy'n creu amgylchedd sy'n annymunol iddynt
- **Erledigaeth** – trin pobl anabl yn annheg oherwydd eu bod wedi cwyno am wahaniaethu neu aflonyddu.

Gall fod yn gyfreithiol i gael rheolau neu drefniadau penodol yn eu lle, cyn belled ag y gellir eu cyfiawnhau.



# Gwefannau ac adnoddau defnyddiol

## Gwefannau

**Anabledd Cymru**
www.disabilitywales.org

**Fields in Trust**
www.fieldsintrust.org/wales_fit.aspx

**Anabledd Dysgu Cymru**
www.ldw.org.uk

**Mencap Cymru**
https://wales.mencap.org.uk

**Mental Health Foundation**
www.mentalhealth.org.uk

**National Deaf Children's Society Wales**
www.ndcs.org.uk/family_support/support_in_your_area/wales

**Plant yng Nghymru**
www.plantyngnghymru.org.uk

**RNIB Cymru**
www.rnib.org.uk/wales-cymru-1

**Scope Cymru**
www.scope.org.uk

**Sense Cymru**
www.sense.org.uk/content/sense-cymru-touchbase-wales

**The National Autistic Society**
www.autism.org.uk

## Adnoddau


Davis, L., White, A. a Knight, J. (2009) *Nature Play: Maintenance Guide*. Llundain: National Children's Bureau ar gyfer Play England

International Play Association (2015) *The Play Rights of Disabled Children IPA Position Statement*. Farringdon: IPA

Chwarae Cymru (2013) *Chwarae: darpariaeth cynhwysol*. Caerdydd: Chwarae Cymru

Llywodraeth Cymru (2016) Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru 2016. Trwydded Agored y Llywodraeth


# Diolchiadau


Jill Bartlett – Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar

Chwarae Torfaen

Dinas a Sir Abertawe ac fe'i ddatblygwyd gan Grŵpiau Mannau Chwarae a Mynediad i Chwarae y Rhwydwaith Chwarae

Rhodri Edwards – Fields in Trust Cymru

Catherine Lewis – Plant yng Nghymru

Mencap Cymru – Llysgenhadon Ifanc Hawl i Gael Hwyl

Anna Murphy – Oshi's World

Helen Murphy – Oshi's World

Dawn Pickering – Prifysgol Caerdydd

Adam Sargeant – Cyngor Bro Morgannwg